**Comisiynydd Plant Cymru**

# Adroddiad yn dilyn ymchwiliadau i waharddiadau answyddogol o'r ysgol

Gellir derbyn yr adroddiad hwn
mewn fformatau gwahanol ar gais.

**Comisiynydd Plant Cymru**

# Adroddiad yn dilyn ymchwiliadau i waharddiadau answyddogol o'r ysgol

**Gellir cael mwy o gopiau o'r adroddiad hwn gan:**


**Comisiynydd Plant Cymru**

Tŷ Ystumllwynarth
Charter Court
Phoenix Way
Llansamlet
Abertawe  SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600
Ffacs: 01792 765601

Plas Penrhos
Oak Drive
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7YW
Ffôn: 01492 523333
Ffacs: 01492 523336

Ebost: post@complantcymru.org.uk

**www.complantcymru.org.uk**



Cyhoeddir gan: Comisiynydd Plan Cymru, 2007
ISBN 0-9544431-3-6

# Rhagair

## Comisiynydd  Plant Cymru

Yn ystod ei flynyddoedd fel Comisiynydd Plant Cymru daeth hi'n fwyfwy amlwg i Peter Clarke fod gormod o blant yn syrthio drwy'r rhwydi cymorth pan fyddai eu rhieni a'u gofalwyr yn cael cais i'w cymryd allan o'r ysgol.  Bu'n ymyrryd bron yn ddyddiol i eiriol ar ran y plant cudd hyn oedd gartref drwy "gytundeb" gyda'r ysgol.  Yn ei farn ef, doedd dim byd gwirioneddol gwirfoddol am y cytundebau honedig hyn gan fod ysgolion yn llawer mwy ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol na'r rheini a'u plant.  Hefyd roedd pwysau'n aml yn cael ei roi ar rieni i dynnu eu plant allan o'r ysgol.  Fe'u galwodd nhw'n waharddiadau answyddogol.

Yn ogystal â helpu plant yn ddyddiol oedd wedi eu gwahardd yn answyddogol, cadarnhaodd mudiadau eraill gyda Peter fod gwaharddiadau answyddogol yn gyffredin ar draws Cymru. Canfu'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol fod un o bob pedwar plentyn â Syndrom Asperger wedi cael ei wahardd, a dywedodd un rhiant "Rydym wedi cael cannoedd o achosion answyddogol o anfon adref, gwaharddiadau am ymddygiad heriol".  Dywedodd un asiantaeth wirfoddol yn Ne Cymru, sy'n gweithio gyda mamau ifanc, wrtho eu bod yn derbyn ar gyfartaledd bedair galwad ffôn y dydd yn gofyn i rieni ddod i'r ysgol i dynnu eu plentyn allan yn wirfoddol.  Yn aml mae'r gwaharddiadau answyddogol hyn yn cynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig.

Pan fydd plentyn yn cael ei wahardd yn answyddogol o'r ysgol, yn aml nid yw'n derbyn yr addysg a'r cymorth ffurfiol y mae ganddo/i hawl i'w cael.  Gall hyn effeithio ar ei hunan barch a'i hunan werth.

Gall gwaharddiadau answyddogol hefyd arwain at ganlyniadau eraill i'r plant a'u teuluoedd a'u gofalwyr; gall trefniadau gofal plant fod yn anodd yn enwedig os yw rhieni a gofalwyr yn gweithio llawn amser; gall gwaharddiadau answyddogol effeithio'n negyddol ar allu'r plentyn i aros gyda'u teuluoedd dirprwyol os ydynt yn derbyn gofal cyhoeddus; nid yw plant yn cael mynediad i brydau bwyd am ddim a gallant gael eu hynysu'n gymdeithasol oddi wrth eu ffrindiau. Gan mai oherwydd problemau ymddygiad y mae disgyblion yn aml yn cael eu gwahardd yn answyddogol, gall teuluoedd a gofalwyr gael anhawster mawr i ddarparu amgylchedd symbylol ac addysgol iddynt drwy gydol y dydd. Mae gwaharddiadau answyddogol yn gallu rhoi plant mewn perygl, ac maent yn gwneud hynny, wrth iddynt gael eu gadael i edrych ar ôl eu hunain heb oruchwyliaeth ddigonol gan oedolion.

Gan fod Peter wedi gweld bod yr arfer hwn yn digwydd yn eang a bod yr effaith ar blant mor negyddol, penderfynodd gynnal ymchwiliad i achos un bachgen, Disgybl A. Mae hanes ei brofiadau o waharddiadau answyddogol yn cael ei adrodd yn deimladwy gan ei fam yn Atodiad A. Cafodd Peter Watkin Jones ac Elizabeth Fevyer o Eversheds eu comisiynu i'n helpu gyda'r ymchwiliad hwn.  Hoffwn ddiolch i Eversheds ac i'm staff innau a weithiodd yn agos gyda mi ar yr Adroddiad.  Rydym wedi cael cymorth mawr gan gydweithrediad parod mam Disgybl A, yr ysgol ac Awdurdod Addysg Lleol Caerdydd (AALl).

Mae angen i bob un ohonom ddysgu yn sgil amgylchiadau hynod drist a thrasig Disgybl A a rhoi terfyn ar yr arfer cyffredin ac anniogel o bosibl o wahardd plant yn answyddogol o'r ysgol.

**Maria Battle**
Dirprwy Comisiynnydd Plant Cymru

# Cynnwys


| Pennod | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad a Chylch Gorchwyl | 4-5 |
| 1. Y Fframwaith Cyfreithiol Perthnasol i Waharddiadau yn Ystod Cyfnod Disgybl A yn yr Ysgol | 6-7 |
| 2. Cysondeb Canllawiau gyda Dyletswyddau Cyfreithiol y Cynulliad Cenedlaethol, AALlau ac Ysgolion | 8 |
| 3. Y Defnydd o Ganllawiau yn Achos Disgybl A a'r Rhesymau Dros Unrhyw Ddiffygion | 9-15 |
| 4. Y Fframwaith Cyfreithiol Presennol | 16-18 |
| 5. Casgliadau ac Argymhellion | 19-23 |
| Atodiadau: | 24-45 |
| A Datganiad gan Fam Disgybl A | 24-37 |
| B Cofnodion y cytunwyd arnynt o drafodaethau gyda'r ysgol | 38-41 |
| C Cofnodion trafodaeth gyda'r AALl | 42-43 |
| D Copi o gofrestr presenoldeb Disgybl A ar gyfer 2002/2003 | 44-45 |

# Cyflwyniad

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn cwyn a wnaed gan Fam Disgybl A mewn perthynas â phrofiadau ei mab oedd yn ddisgybl mewn ysgol uwchradd yng Nghaerdydd ("yr ysgol") rhwng Medi 2001 a marwolaeth Disgybl A ym mis Medi 2003, yn 13 oed.

Mae pryderon mam Disgybl A yn ymwneud â'r nifer o ddyddiau ysgol a gollodd Disgybl A a'r diffyg cymorth addysgol gafodd ei gynnig i Ddisgybl A pan nad oedd yn yr ysgol. Roedd canran o'r dyddiau hyn o absenoldeb yn ddyddiau pan oedd Disgybl A wedi cael ei wahardd o'r ysgol dros dro. Roedd canran uwch o'r dyddiau hyn, fodd bynnag, yn ddyddiau pan gadwodd mam Disgybl A ei mab o'r ysgol, yn dilyn awgrym yr ysgol, oherwydd ei bod yn ofni y byddai ei mab yn cael ei wahardd yn barhaol ac y byddai'r ysgol yn defnyddio'r amser i chwilio am gymorth.

Pwrpas yr ymchwiliad a ffocws yr adroddiad hwn yw peidio â dod i gasgliadau sy'n ymwneud yn benodol â thriniaeth Disgybl A. Nid yw chwaith am wneud unrhyw ganfyddiadau ffeithiol, roedd llawer o'r tystion potensial heb fod ar gael beth bynnag. Yn hytrach, bydd yn ystyried a yw achos Disgybl A wedi amlygu materion a phroblemau sy'n effeithio neu sydd â'r potensial i effeithio ar blant mewn ysgolion ar draws Cymru.

Ni fydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar statws gwaharddiadau "swyddogol"; hynny yw, y gwaharddiadau hynny sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth briodol, boed am dymor penodol neu'n barhaol. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar fath o waharddiad sydd y tu allan i'r gyfraith; hynny yw, dyddiau pan fydd disgyblion yn cael eu cadw o'r ysgol drwy gytundeb rhwng ysgolion a rhieni, ac yn aml yn dilyn awgrym gan yr ysgol. Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cylchlythyrau 3/99 ac yn gyfredol 1/2004 ac 1/2004(a) a 47/2006) yn cyfeirio atynt fel "tynnu allan gwirfoddol". Fodd bynnag, mae'r gair "gwirfoddol" yn awgrymu cytundeb rhwng partneriaid cyfartal. Nid dyma sy'n digwydd gan y bydd gan y pennaeth wybodaeth am y canllawiau perthnasol a dealltwriaeth o hawliau'r rhieni a'r plentyn ac efallai na fydd gan y rhieni a'r plentyn yr wybodaeth honno. Byddwn yn cyfeirio at y gwaharddiadau hyn fel "gwaharddiadau answyddogol" drwy gydol yr adroddiad hwn.

Mae'r ymchwiliad wedi amlygu bod gwaharddiadau answyddogol, er nad ydynt wedi'u hawdurdodi'n gyfreithiol, yn gallu bod yn ddigwyddiad mynych i ddisgyblion sy'n arddangos ymddygiad heriol a gall yn hawdd arwain at beidio â rhoi'r addysg y mae ganddynt hawl iddi i ddisgyblion o'r fath. Mae disgyblion, rhieni, ysgolion ac AALlau fel ei gilydd yn wynebu anawsterau wrth gadw'r cydbwysedd rhwng canfod dull effeithiol o ddelio gyda disgyblion sy'n arddangos ymddygiad heriol a diogelu eu hawl i dderbyn addysg briodol, wrth isafu aflonyddwch i athrawon a disgyblion eraill. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn amlygu yn adeiladol y meysydd hynny o'r gyfraith a chanllawiau y gellir adeiladu arnynt a'u gwella.



Mae strwythur yr adroddiad yn seiliedig ar y Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno.

### Cylch Gorchwyl

1. Adrodd ar y fframwaith deddfwriaethol a'r canllawiau a ddarperir gan yr Awdurdod Addysg Lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ystod cyfnod Disgybl A yn yr ysgol, ar gyfer gwahardd disgyblion o'r ysgol, ac i ddelio gyda disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, gan dalu sylw neilltuol i waharddiadau "answyddogol" a dros dro ac i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig.

2. Ystyried a oedd yr arweiniad hwn yn gyson â dyletswyddau cyfreithiol y Cynulliad Cenedlaethol, yr AALl a'r ysgol ar y pryd hwnnw.

3. Ystyried sut y cafodd yr arweiniad ei gymhwyso'n ymarferol yn achos Disgybl A a'r rhesymau dros unrhyw ddiffygion.

4. Adrodd ar y fframwaith deddfwriaethol cyfredol ac ar arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol a'r AALl ar waharddiadau, sut y mae'r rhain yn cael eu gweithredu yn ymarferol a'u monitro, ac ystyried a yw'r rhain yn datrys unrhyw rai o'r materion a godwyd uchod.

# Pennod 1

## 1. Y Fframwaith Cyfreithiol Perthnasol i Waharddiadau yn Ystod Cyfnod Disgybl a yn yr Ysgol (1127)

**1.1** Roedd y fframwaith cyfreithiol perthnasol i waharddiadau o'r ysgol yn ystod y cyfnod yr oedd Disgybl A'n mynychu'r ysgol (rhwng 2001 a 2003) yn cynnwys deddfwriaeth ac arweiniad oedd yn deillio o'r ddeddfwriaeth honno.

**1.2** Y brif ddeddfwriaeth ar y pryd, oedd yn amlinellu pwerau a chyfrifoldebau ysgolion ac AALlau yng Nghymru wrth wahardd disgyblion oedd **Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**[1]("yr SSFA"), wedi'i chefnogi gan Ganllawiau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei Gylchlythyr **Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol**[2]("Arweiniad y Cynulliad"). Roedd **Cynllun Diwygiedig Cefnogi Ymddygiad** a **Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig**[3] Cyngor Sir Caerdydd hefyd yn berthnasol i bwnc gwaharddiadau ysgol, gan ddarparu arweiniad i ysgolion ar ddisgyblu a delio gyda disgyblion â phroblemau ymddygiad ac Anghenion Addysgol Arbennig.

**1.3** Er nad yw hi'n fwriad yn yr adroddiad hwn i ganolbwyntio ar statws gwaharddiadau cyfreithlon "swyddogol", o anghenraid mae'n amlinellu'n fyr y modd y gallai ysgolion ar y pryd wahardd disgyblion yn gyfreithlon a chyfrifoldebau ysgolion ac AALlau mewn perthynas â disgyblion a waharddwyd yn gyfreithlon. Roedd yr SSFA a Chanllawiau'r Cynulliad yn rhoi pwerau a chyfrifoldebau i ysgolion ac AALlau mewn perthynas â disgyblion a waharddwyd, oedd yn dibynnu ar faint o ddyddiau yr oedd y disgybl unigol wedi cael ei g/wahardd:

**1.3.1 Gwaharddiadau cyfnod penodol yn arwain at hyd at 5 diwrnod o waharddiad mewn un tymor ysgol**
Rhwng 2001 a 2003 roedd gan ysgolion ddyletswydd i hysbysu rhieni disgyblion am y gwaharddiad ac i sicrhau fod y disgybl yn derbyn addysg briodol (oedd yn cynnwys gosod a marcio gwaith). Ar y pryd, gallai Pwyllgor Disgyblu Ysgol wrando ar gynrychioliadau gan y rhieni, ond nid oedd ganddynt y grym i adfer y disgybl.

**1.3.2 Gwaharddiadau cyfnod penodol yn arwain at rhwng 6 a 15 diwrnod o waharddiad mewn un tymor ysgol**
Yn ogystal â'r dyletswyddau uchod, roedd gan ysgolion ddyletswydd i hysbysu'r AALl a chorff llywodraethol yr ysgol am y gwaharddiad. Byddai Pwyllgor Disgyblu Ysgol y Corff Llywodraethol wedyn yn cyfarfod i ystyried y gwaharddiad a phenderfynu a ddylid adfer y disgybl neu gadw'r gwaharddiad mewn grym. Gallai rhieni'r disgybl a'r AALl gyflwyno cynrychioliadau i'r Pwyllgor Disgyblu. Byddai'r ysgol wedyn yn hysbysu'r AALl am y penderfyniad. Byddai'r AALl yn delio gydag unrhyw apêl yn erbyn y penderfyniad i beidio ag adfer y disgybl.

**1.3.3 Gwaharddiadau cyfnod penodol yn arwain at hyd dros 15 diwrnod o waharddiad mewn un tymor ysgol**
Ar ben y dyletswyddau uchod, roedd gan ysgolion ddyletswydd i ystyried sut y byddai cyfnod gwaharddiad y disgybl yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag anawsterau'r disgybl a pha drefniadau fyddai'n cael eu gwneud i sicrhau addysg barhaus y disgybl. Roedd gan ysgolion ddyletswydd hefyd i gychwyn cyswllt gyda'r AALl i drafod sut i ddarparu pecyn cymorth fyddai'n hwyluso ailintegreiddio ar ddiwedd y gwaharddiad a sut y byddai cost darparu hwn yn cael ei dalu.

[1] c.31
[2] Circular 3/99 – Pupil Support and Social Inclusion
[3] Special Educational Needs Code of Practice 1994 and Special Educational Needs Code of Practice for Wales 2002



**1.3.4 Dan y SSFA roedd hi'n anghyfreithlon i ddisgybl gael ei g/wahardd am gyfnod penodol am fwy na 45 diwrnod i gyd mewn un flwyddyn academaidd**
Gallai hyn fod wedi arwain ysgolion i ddefnyddio gwaharddiadau answyddogol ar ôl iddynt, neu wrth iddynt fod yn agos at, ddefnyddio'r 45 diwrnod.

**1.3.5 Gwaharddiadau Parhaol**
Yn ogystal â'r dyletswyddau uchod, roedd gan yr AALl ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg llawn amser priodol mewn ysgol neu fel arall.

**1.3.6 Gwaharddiadau Answyddogol**
Mae'n bwysig nodi nad oedd yr SSFA yn darparu ar gyfer gwaharddiadau "answyddogol". Nid oedd hi'n gyfreithlon i ysgol wahardd disgybl heb fod yn unol â'r SSFA. Nododd Arweiniad y Cynulliad:

*"Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu fod dylanwadu ar rieni neu eu hannog i dynnu plentyn allan o ysgol yn "wirfoddol" fel dull o ddelio ag ymddygiad trafferthus yn ymateb priodol. Mae gosod pwysau trwm ar rieni i dynnu eu plentyn allan, yn enwedig i'w dynnu allan yn barhaol, yn amddifadu'r plentyn o addysg, gan ei bod yn annhebygol y bydd ysgol newydd yn gallu cael ei threfnu'n gyflym. Mae hefyd yn amddifadu'r disgybl a'r rhieni o ddiogelwch mynediad i'r gweithdrefnau gwahardd ac apelio y mae ganddynt hawl iddynt. Dylai pennaeth sy'n ystyried ymddygiad disgybl yn ddigon anodd i warantu gwaharddiad, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol, ddefnyddio'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn Atodiad E"*[4]

*"Bydd angen i AALlau ystyried pa gamau sy'n briodol lle mae ysgolion yn gofyn i rieni dynnu eu plentyn o'r ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad parhaol"*[5]

Roedd Cylchlythyr Arweiniad y Cynulliad 3/99 – Cynnal Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol yn cynnwys datganiad clir:

*Gall gormod o absenoldebau wedi'u hawdurdodi fod yr un mor niweidiol i ddilyniant dysgu ag absenoldebau heb awdurdod; mae angen i ysgolion felly fod yn ddarbodus wrth awdurdodi absenoldeb, gan wneud hynny dim ond ar ôl ystyried yn ofalus, yn enwedig gyda disgyblion sydd â hanes o bresenoldeb afreolaidd. Nid yw awdurdodi absenoldeb yn amhriodol er lles plant a gall lesteirio'n ddifrifol weithredu effeithiol gan y Gwasanaeth Lles Addysg a chyfaddawdu gweithrediadau cyfreithiol.*

Ac mae Rheoliadau Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru 1995 (Cofrestru Disgyblion) yn nodi:

*(3) Yn amodol ar baragraff (4), yn dilyn cais gan y rhiant y mae'r disgybl yn byw gydag ef/hi fel arfer, gellir caniatáu i ddisgybl absenoldeb o'r ysgol i'w g/alluogi i fynd i ffwrdd ar wyliau.*

*(4) Ar wahân i amgylchiadau eithriadol, ni fydd disgybl, o ganlyniad i baragraff (3), yn cael caniatâd i gael mwy na deg diwrnod ysgol o wyliau mewn un flwyddyn ysgol.*

**1.4** Cafodd darpariaethau'r SSFA oedd yn delio â gwaharddiadau ysgol eu disodli gan **Ddeddf Addysg 2002** a **Rheoliadau Addysg (Cymru) 2003 (Gwaharddiadau Disgyblion ac Apeliadau) (Ysgolion Wedi'u Cynnal)** ddaeth i rym ar 9 Ionawr 2004. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arweiniad newydd i AALlau ac Ysgolion, **Arweiniad ar Waharddiadau o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion**[6]. Ym mis Mai, cyhoeddodd Awdurdod Addysg Lleol Caerdydd Gynllun Cefnogi Ymddygiad newydd. Bydd y newidiadau ddaeth yn sgil y fframwaith deddfwriaethol newydd yn cael eu trafod ym Mhennod 4.

[4] Para 6.18, C 3/99
[5] Para 6.19, C 3/99
[6] C 01/2004 and C 01(A)/2004

# Pennod 2

## 2. Cysondeb Canllawiau gyda Dyletswyddau Cyfreithiol y Cynulliad Cenedlaethol, AALlau ac Ysgolion

**2.1** Rhagwelodd yr SSFA y byddai angen arweiniad wrth weithredu ei ddarpariaethau mewn perthynas â gwaharddiadau a nododd y dylai penaethiaid, Cyrff Llywodraethol ac AALlau dalu sylw i unrhyw arweiniad a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol[7] wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Arweiniad y Cynulliad yn arweiniad o'r fath.

**2.2** Nid oedd Arweiniad y Cynulliad na Chynllun Cefnogi Ymddygiad yr AALl yn gwrthdaro'n uniongyrchol â'r SSFA. Mae'r ymchwiliad hwn, fodd bynnag, wedi amlygu bod nifer o feysydd yn yr arweiniad oedd yn amwys neu'n annigonol wrth ddiogelu hawl disgyblion i addysg. Byddwn yn delio â hyn ym Mhennod 3.

**2.3** Fel y nodwyd uchod, mae'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad oedd mewn grym yn ystod cyfnod Disgybl A yn yr ysgol wedi cael eu disodli erbyn hyn. Rydym yn edrych ar i ba raddau y mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn datrys y materion dan yr hen fframwaith cyfreithiol ym Mhennod 4.

[7] Adran 68 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998



# Pennod 3

## 3. Y Defnydd o Ganllawiau yn Achos Disgybl A a'r Rhesymau dros Unrhyw Ddiffygion

**3.1** Mae'n amlwg na chafodd arweiniad y Cynulliad ei ddefnyddio'n effeithiol gan yr ysgol na'r AALl yn achos Disgybl A. Mae hyn yn amlwg o'r ffaith fod pob parti perthnasol yn cydnabod fod Disgybl A wedi cael ei gadw o'r ysgol drwy gytundeb ar sawl achlysur, o ganlyniad i ymddygiad heriol Disgybl A.

**Atodwn gyda'r adroddiad hwn:**

**A** Datganiad gan Fam Disgybl A
**B** Cofnodion y cytunwyd arnynt o drafodaethau gyda'r ysgol
**C** Cofnodion trafodaeth gyda'r AALl
**D** Copi o gofrestr presenoldeb Disgybl A ar gyfer 2002/2003

Cyfeiriwn yn enwedig at dystiolaeth mam Disgybl A a pharagraff 3 atodiad B mewn perthynas â hyn.

**3.2** Bydd y bennod hon yn delio â'r defnydd o waharddiadau answyddogol fel modd o ddelio gydag ymddygiad heriol Disgybl A, yr addysg a dderbyniodd Disgybl A tra'i fod wedi ei wahardd yn answyddogol o'r ysgol a'r cymorth oedd ar gael iddo gan yr AALl yn ystod y cyfnod hwn. Bydd wedyn yn ystyried y materion ehangach a amlygwyd yn yr achos hwn a'r rhesymau dros unrhyw ddiffygion yn y system.

### Y Defnydd o Waharddiadau Answyddogol

**3.3** O'r dystiolaeth a gafwyd, fel y gwelir yn atodiadau A a B, mae'n amlwg fod Disgybl A, o'i flwyddyn gyntaf yn yr ysgol, wedi arddangos ymddygiad heriol tuag at athrawon a disgyblion eraill arweiniodd at gamau disgyblu, yn cynnwys gwaharddiadau tymor penodol. Yn fy marn i, dylai ymddygiad Disgybl A fod wedi sbarduno asesiad statudol llawer cynharach o anghenion Disgybl A dan y Cod Ymarfer AAA[8].

**3.4** Ym mis Rhagfyr 2002, yn ystod ail flwyddyn Disgybl A yn yr ysgol, cyfarfu'r ysgol â'i fam i drafod ei ymddygiad a'r ffaith bod rhai athrawon yn gwrthod ei ddysgu. Awgryma'r dystiolaeth fod yr ysgol wedi gofyn i'w fam ei gadw allan o'r ysgol am weddill tymor yr Hydref. Nid oedd yr uwch bennaeth cynorthwyol ar gael i roi tystiolaeth, ac mae'r holl bersonél perthnasol yn yr AALl wedi symud ymlaen, ac oherwydd hynny nid oeddent ar gael. Cytunodd mam Disgybl A gan fod Disgybl A dan fygythiad o gael gwaharddiad parhaol ac oherwydd, meddai hi, fod yr ysgol wedi ei sicrhau y byddent yn ceisio cymorth ar ei gyfer ac ar gyfer yr ysgol gan yr AALl. Anfonodd mam Disgybl A ei mab i aros gyda'i fam-gu a'i dad-cu ar eu fferm yng Ngorllewin Cymru. Roedd yr ysgol a hithau'n gobeithio y byddai amser i ffwrdd o'r ysgol ac mewn amgylchedd gweithgar strwythuredig yn golygu y byddai Disgybl A'n dod yn ôl i'r ysgol ym mis Ionawr ac yn gwneud cynnydd gyda gweddill ei flwyddyn ysgol.

**3.5** Mewn gwirionedd, arhosodd Disgybl A i ffwrdd o'r ysgol am fwyafrif tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf. Ar yr achlysuron y bu iddo ddychwelyd i'r ysgol, byddai ymddygiad Disgybl A'n fuan yn arwain at benderfyniad yr ysgol i ffonio ei fam i ofyn iddi fynd ag ef adref. Ar y cychwyn, cytunai mam Disgybl A i wneud hyn. Dengys cofnodion presenoldeb yr ysgol fod Disgybl A wedi cael ei wahardd yn swyddogol am gyfanswm o 22 diwrnod yn ystod blwyddyn academaidd 2002/03. Ar ben hyn, awgryma'r cofnodion fod yna o leiaf 89 diwrnod pan fu Disgybl A'n absennol o'r ysgol drwy gytundeb rhwng yr ysgol a mam Disgybl A[9]. Mae hyn yn llawer uwch na'r lefelau cyfreithiol o waharddiadau a ganiateir a'r rhai a argymhellir yng Nghylchlythyr 3/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer absenoldebau awdurdodedig.

[8] Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig 1994
[9] See Annex D

**3.6** Tra'i bod hi'n ymddangos fod rhan fawr o'r gwaharddiadau answyddogol wedi digwydd yn dilyn awgrym gan yr ysgol, roedd rhai yn dilyn awgrym gan fam Disgybl A. Ym mis Mehefin 2003, penderfynodd mam Disgybl A y byddai'n beth da i Ddisgybl A fynd dramor i aros gyda'r teulu am weddill yr Haf, yn cynnwys mis olaf tymor yr Haf. Cytunodd yr ysgol â hyn. Dywedodd mam Disgybl A fod hwn yn benderfyniad anodd iawn ac nad oedd hi wedi ei wneud yn ysgafn. Fodd bynnag, ar y pryd roedd hi'n teimlo nad oedd Disgybl A yn agos at gael y cymorth priodol yr oedd ei angen ac mai ei anfon dramor gyda'i dad oedd yr unig ddewis gwirioneddol. Dywedodd mam Disgybl A nad oedd hyn yn ateb a fyddai wedi ei tharo pe byddai'r cymorth ymddygiad a ddylai fod ar gael i'w phlentyn ac i'r ysgol wedi cael ei ddarparu.

**3.7** Cydnabu'r ysgol, wrth edrych yn ôl, nad oedd y trefniadau lle'r oedd Disgybl A'n cael ei gadw gartref am gyfnodau hir yn dderbyniol. Fodd bynnag, ar y pryd roedd y gwaharddiadau answyddogol yn cynnig "ateb" ymarferol i'r ysgol, ac i'r problemau pan fyddai Disgybl A yn yr ysgol. Credai mam Disgybl A fod yr ysgol yn ceisio'r cymorth angenrheidiol tra bod ei mab allan o'r ysgol. Mae hanes trist Disgybl A'n dangos pa mor hawdd yw hi i'r ddwy ochr sy'n wynebu problem anodd gytuno ar "waharddiadau answyddogol" fel dull ad hoc o "ddod drwyddi rywsut".

## Darparu Addysg yn ystod Gwaharddiadau Answyddogol

**3.8** Roedd y cyfrifoldeb dros ddarparu addysg i Ddisgybl A yn aros gyda'r ysgol tra'i fod ar gofrestr disgyblion yr ysgol. Roedd gan yr AALl gyfrifoldeb cyffredinol i ddarparu addysg amgen addas i ddisgyblion nad oeddent yn mynychu ysgolion prif ffrwd am ba reswm bynnag[10], er nad yw hi'n eglur sut y byddai'r cyfrifoldeb hwn yn gweithio'n ymarferol gyda gwaharddiadau answyddogol, lle efallai na fyddai'r AALl yn ymwybodol nad oedd disgybl yn mynychu ysgol. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir pa mor hawdd oedd hi i beidio â sylwi ar y "gwaharddiadau answyddogol", neu iddynt gael eu cuddio'n fwriadol neu'n anfwriadol, gan olygu na fyddai'r ysgol, yr AALl, y Gwasanaeth Lles Addysg neu hyd yn oed y rhiant yn sylweddoli maint y broblem.

**3.9** Roedd yr ysgol yn ymwybodol o'i dyletswydd i ddarparu addysg briodol ar gyfer Disgybl A a gwnaeth rai ymdrechion i gwrdd â'r ddyletswydd hon yn ystod 2003. Yn ymarferol, fodd bynnag, anaml yr oedd gwaith yn cael ei osod na'i ddilyn i fyny, ac roedd anhawster mewn dod o hyd i waith oedd yn addas i ddisgybl ei wneud gartref a hynny heb arweiniad blaenorol yn y dosbarth.

**3.10** Nid oedd yr ysgol, fodd bynnag, yn golchi'i dwylo o'r broblem, nac yn gobeithio y byddai rywsut yn datrys ei hun. Trefnodd yr ysgol, a thalu, i Ddisgybl A fynychu'r Ymddiriedolaeth Fferm, mudiad elusennol, yn ystod Gwanwyn 2003. Digwyddodd hyn ar ôl i fam Disgybl A fod yn yr ysgol dair gwaith y diwrnod hwnnw gan ddweud wrth yr ysgol nad oedd hi'n barod i gadw'i mab gartref ar ôl gwyliau'r Pasg fel yr oedd yr ysgol wedi gofyn, a'i bod yn teimlo fod yr amser wedi dod i wahardd ei mab yn barhaol.

[10] Gweler Adran 19(1) Deddf Addysg 1996.



Nid oedd y lleoliad yn yr Ymddiriedolaeth Fferm, fodd bynnag, yn cynnwys addysg gwricwlaidd a dim ond am ddau ddiwrnod yr wythnos yr oedd yn mynd yno, gyda'r ysgol yn gofyn i fam Disgybl A ei gadw adref ar y tri diwrnod arall. Trefnodd yr ysgol hefyd i Ddisgybl A fynychu dau sesiwn cynghori. Nid oedd yr un o'r mesurau hyn yn darparu addysg fel y cyfryw i Ddisgybl A. Dim ond ymdrech i reoli a delio ag ymddygiad Disgybl A oedden nhw. Er yn ddealladwy, effaith hyn oedd bod Disgybl A mewn gwirionedd wedi'i wahardd o'r ysgol yn answyddogol a heb ei gydnabod.

## Cymorth ar gael gan yr AALl

**3.11** Roedd y cymorth oedd ar gael gan yr AALl yn ystod cyfnod Disgybl A yn yr ysgol wedi'i gyfyngu gan bolisi'r AALl nad oedd cymorth o'r fath, yn cynnwys cyfeirio at Unedau Cyfeirio Disgyblion, yn dod ar gael nes bod disgybl naill ai wedi cael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu ei fod wedi'i wahardd yn barhaol.

**3.12** Roedd Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig 1994 yn weithredol yng Nghymru a Lloegr ac roedd yn nodi pum cam hierarchaidd o asesu a chefnogi. Unwaith y byddai disgybl yn cyrraedd cam pedwar gallai ysgol wneud cais i'r AALl am Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig allai ddatgloi cyllid a chymorth ychwanegol. Ar ben hyn, roedd gan yr ysgol ei gweithdrefnau ei hun, camau A a B, yr oedd yn rhaid mynd trwyddynt cyn i gamau'r Cod Ymarfer gychwyn. Wrth ailddrafftio'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig i Gymru (a ddaeth i rym ar 1af Ebrill 2002) cafodd ei gydnabod fod yr hen ddull pum cam yn rhoi'r argraff bod angen mynd drwy bob un o'r camau, ac nid oedd hynny'n wir. Cafodd y dull pum cam ei ddisodli gan God Ymarfer newydd gyda system symlach a mwy effeithiol.

Yn achos Disgybl A, aeth yr ysgol drwy bob cam, gyda'r cynnydd at bob cam newydd yn cael ei gytuno gan Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol. Ym mis Mai 2003, ar ôl cyrraedd y pedwerydd cam, cyfeiriodd yr ysgol Disgybl A am asesiad statudol yn y gobaith y gellid datgloi cyllid / cymorth ychwanegol. Tua'r un pryd aeth mam Disgybl A â'i mab i weld Seiciatrydd, a wnaeth ddiagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD).

**3.13** Mae'n debyg bod yr ysgol wedi cysylltu â'r AALl ar nifer o achlysuron drwy gydol 2003 yn gofyn am gymorth i Ddisgybl A, ond gan nad oedd wedi ei wahardd yn barhaol nac yn destun Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, nid oedd arian am gymorth ychwanegol ar gael. Ym mis Gorffennaf, ar ôl i'r broses asesu statudol gychwyn, cysylltodd yr AALl â'r ysgol i gadarnhau bod lle ar gael ar gyfer Disgybl A mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU), ar yr amod bod yr ysgol yn cymryd disgybl o'r PRU yn gyfnewid. Ni chafodd y cynnig ei drafod gyda mam Disgybl A. Erbyn hyn roedd Disgybl A dramor ar yr hyn oedd mewn gwirionedd yn waharddiad heb ei gydnabod, ac felly un answyddogol, a gwrthododd yr ysgol y cynnig.

**3.14** Daeth Disgybl A'n ôl i'r ysgol ym mis Medi 2003 a chafodd ei wahardd eto. Erbyn hyn roedd mam Disgybl A wedi dechrau pryderu'n fawr am sefyllfa Disgybl A, felly cysylltodd â Phennaeth y Gwasanaethau Ymddygiadol yn yr AALl. Cadarnhaodd yr AALl nad oedd yn ymwybodol o raddau absenoldebau Disgybl A (roedd yn ymwybodol o 22 diwrnod o waharddiadau swyddogol yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol yn unig) gan amlygu'r pwynt a wnaethpwyd uchod fod gwaharddiadau answyddogol yn cuddio'r broblem o'r golwg.

Nid oedd yr AALl chwaith yn gwybod ei fod wedi cael diagnosis o ADHD. Mae'n debyg i'r AALl gadarnhau mai dim ond i ddisgyblion oedd wedi eu gwahardd yn barhaol yr oedd llefydd ar gael mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

**3.15** Ar ôl clywed pa mor aml y bu Disgybl A'n absennol, trefnodd yr AALl y byddai "cynorthwy-ydd dosbarth" yn bresennol yn nosbarthiadau Disgybl A. Trefniant dros dro oedd hwn tra'n aros am ganlyniad ei asesiad am Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Roedd y cymorth yn gyfyngedig, gan mai dim ond am bedwar diwrnod yr wythnos yr oedd ar gael ac roedd rhaid i'r cynorthwy-ydd dosbarth adael am 3pm. Nid oedd Disgybl A'n cael bod yn yr ysgol heb y cynorthwy-ydd dosbarth. Roedd hyn mewn gwirionedd yn golygu diwrnod arall yr wythnos o waharddiad answyddogol. Gwelodd mam Disgybl A welliant yn ei mab yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dim ond am 4 diwrnod yr oedd y cynorthwy-ydd dosbarth wedi bod yn gweithio gyda Disgybl A a thua diwedd mis Medi 2003, dywedwyd wrth ei fam am "ddigwyddiad" gyda Disgybl A a gofynnwyd iddi ei gadw gartref. Dywedwyd wrthi wedi hynny y byddai Disgybl A'n cael ei wahardd yn barhaol. Bu farw Disgybl A ar ddiwrnod y gwaharddiad swyddogol.

## Materion Ehangach a Rhesymau dros Ddiffygion

### 3.16 Ymwybyddiaeth rhieni o hawliau cyfreithiol a statws gwaharddiadau answyddogol

**3.16.1** O safbwynt mam Disgybl A yn edrych yn ôl dros hanes trist addysg ei mab, un mater pwysig oedd ei diffyg ymwybyddiaeth o'r sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â gwaharddiadau. Nid oedd yn ymwybodol ar y dechrau y gallai fynnu bod ei mab yn mynychu'r ysgol oni bai ei fod wedi ei wahardd yn swyddogol. Mae'n debyg bod y sylweddoliad hwn wedi cynyddu yn fuan cyn i Ddisgybl A farw. Doedd hi ddim yn ymwybodol chwaith, yn ôl polisi'r AALl, y byddai lefel uwch o gymorth wedi dod ar gael i'w mab pe byddai wedi ei wahardd yn barhaol neu wedi cael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

**3.16.2** Ar y dechrau, roedd mam Disgybl A wedi cydweithio gyda'r cysyniad o gadw Disgybl A o'r ysgol a chytunodd i gadw Disgybl A gartref pan ofynnwyd iddi ym mis Rhagfyr 2002. Mae hyn yn ymddygiad dealladwy i fam oedd yn pryderu am ymddygiad anystywallt ei mab. Cysylltodd â'r Swyddog Lles Addysg yn yr AALl, ac mae'n debyg i hynny gadarnhau iddi na ddylai Disgybl A gael ei wahardd yn answyddogol ond awgrymwyd y dylai gydweithredu â'r ysgol yn y tymor byr. Os bu i hyn ddigwydd fel yr honnir, mae'n gydnabyddiaeth ddealledig swyddogol fod gan waharddiadau answyddogol eu lle yn yr ymchwil am ateb. Yn ddiweddarach, rhoddodd y Gwasanaeth Lles Addysg gyngor iddi i fynnu bod Disgybl A'n mynd yn ôl i'r ysgol. Doedd dim cymorth ar gael gan yr AALl ar y pryd hwnnw. Mae'n debyg bod yr ysgol, fodd bynnag, wedi dweud wrth mam Disgybl A na fyddai'n cael dod yn ôl i'r ysgol nes bod cymorth ychwanegol gan yr AALl wedi'i drefnu. Arweiniodd hyn at sefyllfa annatrys mewn gwirionedd, ac o ganlyniad cafodd Disgybl A ei gadw o'r ysgol yn answyddogol.

Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch rôl y Gwasanaeth Lles Addysg. Yn draddodiadol, byddai'r Swyddog Lles Addysg wedi gwirio cofrestri a thrafod unrhyw absenoldebau gormodol gyda phenaethiaid blwyddyn, yn cynnwys yr absenoldebau oedd wedi eu hawdurdodi. Dylai absenoldebau mor helaeth fod wedi arwain at ymchwiliad ac at gyfeirio at wasanaethau cefnogi.

**3.16.3** Ar ôl dod yn ymwybodol y byddai mwy o gefnogaeth wedi bod ar gael i helpu Disgybl A pe byddai wedi ei wahardd yn barhaol, yng Ngwanwyn 2003 cododd mam Disgybl A'r cwestiwn a ddylai Disgybl A gael ei wahardd yn barhaol gyda'r ysgol. Nid oedd yr ysgol yn ystyried bod ymddygiad Disgybl A'n haeddu gwaharddiad parhaol y pryd hwnnw.

**3.16.4** Yn fuan ar ôl i Ddisgybl A fynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi 2003, gofynnodd yr ysgol i fam Disgybl A fynd ag ef adref a'i gadw yno nes bod cymorth wedi'i drefnu. Erbyn hyn roedd mam Disgybl A'n ymwybodol o statws cyfreithiol gwaharddiadau answyddogol a mynnodd os oedd Disgybl A i gael ei gadw adref, mai drwy'r proses gwahardd swyddogol y byddai hynny. O ganlyniad i hynny, rhoddodd yr ysgol waharddiad swyddogol i Ddisgybl A am dymor penodol. Wedi hynny hysbysodd mam Disgybl A'r AALl am lefel absenoldebau Disgybl A a chyd-darodd hyn â'r AALl yn cynnig cymorth drwy gyfrwng cynorthwy-ydd dosbarth.

**3.16.5** Mae hi'n amlwg felly y gall rhieni chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu gwahardd yn answyddogol a'u bod yn derbyn addysg ddigonol. Mae hyn, fodd bynnag, yn ddibynnol ar fod rhieni'n deall eu hawliau cyfreithiol a hawliau eu plentyn.

### 3.17 Canlyniadau i wybodaeth ysgolion ac AALlau am achosion o Waharddiadau Answyddogol

**3.17.1** Gosododd Arweiniad y Cynulliad y cyfrifoldeb dros ddeilio â gwaharddiadau answyddogol yn glir ar ysgwyddau'r AALl, pan ddywedodd y bydd "angen i AALlau ystyried pa gamau sy'n briodol lle mae ysgolion yn gofyn i rieni dynnu eu plentyn o'r ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad parhaol". Roedd yr arweiniad ynddo'i hun yn eithaf niwlog, gan nad oedd yn awgrymu beth allai fod yn sancsiynau priodol. Yn bwysicach, fodd bynnag, nid oedd yn darparu unrhyw fecanwaith ffurfiol er mwyn i AALlau ddod yn ymwybodol bod gwaharddiadau answyddogol o'r fath yn digwydd. Gan fod gwaharddiadau answyddogol yn syrthio y tu allan i'r SSFA, doedd dim gofyniad i ysgolion hysbysu'r AALl pan fyddai disgybl i ffwrdd o'r ysgol drwy "gytundeb". Ar y cyfan felly, dim ond wrth i rieni gysylltu â'r AALl y byddai AALlau yn cael gwybod am waharddiadau answyddogol, os o gwbl.

**3.17.2** Mae canlyniadau AALlau yn peidio gwybod am waharddiadau answyddogol yn bell-gyrhaeddol ac o bosib yn drychinebus i addysg y disgybl. Lle mae ysgol yn dilyn y gyfraith ac Arweiniad y Cynulliad, a lle mae disgybl wedi cael yr uchafswm o 45 diwrnod o waharddiadau cyfreithiol tymor penodol, yr unig opsiwn ar ôl i ysgol fyddai gwahardd y disgybl hwnnw'n barhaol. Lle mae gwaharddiadau answyddogol yn cael eu defnyddio, gall y disgybl barhau i golli'r ysgol a gall yr absenoldebau hynny aros heb eu canfod am gyfnod amhenodol.

**3.17.3** Mae gallu'r AALl i ddelio â gwaharddiadau answyddogol felly'n dibynnu ar gael mecanwaith sy'n ei hysbysu am waharddiadau o'r fath a mecanweithiau i'r AALl allu "rhoi sancsiwn" ar yr ysgol. Mae tystiolaeth Rheolwr Cynhwysiad yr AALl (Gwasanaethau Cefnogi) yn Atodiad C yn awgrymu mai'r unig ddull amlwg o ganfod y broblem yw drwy gyfrwng archwiliad ad hoc o gofrestri. Yn anaml ac yn anghyson y caiff y mecanwaith hwn ei ddefnyddio. Yn niffyg polisi a gweithdrefn, bydd ceudod parhaus lle bydd gwaharddiadau answyddogol yn dal i ddigwydd. Dylai AALlau fedru gosod sancsiynau ar ysgolion sy'n defnyddio gwaharddiadau answyddogol fel dull o ddelio gydag ymddygiad disgyblion.

### 3.18 Pan fydd cymorth yn dod ar gael gan yr AALl

**3.18.1** Nid oedd y ddeddfwriaeth na'r arweiniad yn gofyn mai dim ond disgyblion â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu ddisgyblion wedi eu gwahardd yn barhaol ddylai fod yn gymwys i gael cymorth. Mae gan SENCO'r ysgol ddisgresiwn pryd i ofyn am gymorth ychwanegol ac am arian ychwanegol gan yr AALl ar gyfer disgybl unigol, ond yr AALl sy'n pennu a yw hwn ar gael. Mae'n ymddangos mai dyma bolisi'r AALl dan sylw, ac yn ddiau mae'n seiliedig yn llwyr neu'n rhannol ar faterion cyllido.

**3.18.2** Canlyniadau polisi o'r fath yw nad yw'r cymorth yn dod ar gael tan yn hwyr iawn i rai disgyblion, o bosibl ar ôl rhai misoedd, ac yn bendant ddim ar gychwyn y problemau. Mae hyn yn neilltuol wir gyda disgyblion sy'n arddangos ymddygiad heriol yn rheolaidd, nad yw'n ddigon drwg iddynt gael eu gwahardd yn barhaol ac sydd heb Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae disgyblion fel hyn mewn perygl o 'lithro drwy'r rhwyd' os nad oes cymorth ychwanegol ar gael iddynt yn gynnar. Heb gymorth i ddisgyblion yn y sefyllfa hon, bydd ysgolion dan bwysau cynyddol i'w gwahardd yn answyddogol neu i'w gwahardd yn swyddogol ac yn barhaol ar adeg na fyddai'r ysgol yn arferol yn dewis gwneud hynny.

### 3.19 Canfod a delio gyda disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig

**3.19.1** Roedd Arweiniad y Cynulliad yn gwahaniaethu rhwng disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig a disgyblion sydd ond yn 'camymddwyn'. Dywedwyd fod y rhai oedd yn 'camymddwyn' yn cael eu trafod yn fwy priodol drwy ddisgyblu a gwahardd na gyda chymorth addysgol. Ar yr un pryd, cydnabu Arweiniad y Llywodraeth fod peth gorgyffwrdd yn anghenion disgyblion o'r fath. Yr wyf o'r farn fod gwahardd yn angen arbennig ynddo'i hun ac y dylai ail waharddiad am dymor penodol neu waharddiad parhaol arwain yn awtomatig at asesiad gan y Seicolegydd Addysg, yn enwedig gan fod rhwymedigaeth ar yr AALl i ddod o hyd i ysgol arall neu leoliad PRU i'r disgybl pan fo plentyn yn cael ei wahardd yn barhaol.

**3.19.2** Mae'n bwysig felly penderfynu a oes gan ddisgyblion sy'n arddangos problemau ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig a bod angen cymorth addysgol arnynt neu ai camymddwyn y maen nhw a bod angen dull arall o gefnogi neu ddisgyblu arnynt. Roedd gan fam Disgybl A bryderon am ymddygiad ei mab ac a oedd y rheswm drosto'n fwy na rhywbeth ymddygiadol yn unig ers yn gynnar yn ei ail flwyddyn yn yr ysgol.



Yn gynnar yn 2003 fe holodd yn yr ysgol a oedd gan Ddisgybl A anawsterau dysgu neu anghenion arbennig, ond roedd yr ysgol yn credu nad oedd hynny'n wir gan fod ymddygiad a gallu Disgybl A i weithio'n amrywio ac ym marn yr ysgol roedd yn ymddangos ei fod yn dewis pryd i fod yn aflonyddgar. Yn ystod Gwanwyn 2003 trefnodd mam Disgybl A bod ei mab yn gweld seiciatrydd, a chafodd ddiagnosis o ADHD. Ym mis Mehefin 2003 cyfeiriodd yr ysgol Disgybl A i gael asesiad statudol, wedi symud drwy'r hen God Ymarfer. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid oedd hi'n fwriad bob unrhyw gymorth yn dibynnu ar symud ymlaen drwy'r camau i gyd; bydd gan rai plant ag anghenion difrifol ddatganiad o gychwyn eu haddysg.

**3.19.3** Roedd pum cam y Cod Ymarfer (ynghyd â dau gam ychwanegol o bolisi'r ysgol ei hun) wedi golygu fod symud at Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn araf yn achos Disgybl A. Mae'n bosib bod y symud araf drwy'r camau wedi ei waethygu ymellach gan y ffaith nad oedd Disgybl A yn yr ysgol pan oedd wedi ei wahardd yn answyddogol. Pe byddai Disgybl A wedi cael ei gydnabod ag Anghenion Addysgol Arbennig yn gynharach, byddai cymorth dan bolisi'r AALl hefyd wedi bod ar gael yn gynharach hefyd.

**3.19.4** Mae gallu ysgolion ac AALlau i ddelio'n effeithiol ac yn briodol â disgyblion sy'n arddangos ymddygiad heriol yn dibynnu ar ganfod a oes gan y disgybl Anghenion Addysgol Arbennig mor gynnar â phosibl.

Lle mae disgybl ag Anghenion Addysgol Arbennig yn mynd heb ei ganfod am gyfnod o amser, a bod ymddygiad heriol disgybl yn mynd yn beth cyson, bydd y pwysau'n fwy ar yr ysgol i wahardd y disgybl yn answyddogol neu ei wahardd yn swyddogol yn gynamserol.

# Pennod 4

## 4. Y Fframwaith Cyfreithiol Presennol

### Deddfwriaeth

**4.1** Ar 9 Ionawr 2004 cafodd y adrannau hynny o'r SSFA oedd yn delio â gwaharddiadau mewn ysgolion eu disodli gan **Deddf Addysg 2002**[11], a'r **Rheoliadau Addysg (Cymru) 2003 (Gwaharddiadau Disgyblion ac Apeliadau) (Ysgolion Wedi'u Cynnal)**[12] ("y ddeddfwriaeth newydd").

Mae'r sefyllfa dan y ddeddfwriaeth newydd ar y cyfan yr un fath ag o dan SSFA. Mae'r newidiadau canlynol, fodd bynnag, yn berthnasol i'r Ymchwiliad:

**4.2.1** Mae gan benaethiaid yn awr ddyletswydd i hysbysu'r AALl a'r corff llywodraethol am unrhyw waharddiadau sy'n dod i lai na chwe diwrnod mewn un tymor a rhaid iddynt ddarparu manylion am y cyfnod gwahardd a'r rhesymau dros y gwaharddiad.[13]

**4.2.2** Mae gan gyrff llywodraethol yn awr ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r AALl bob tymor mewn perthynas â gwaharddiadau:

**(a)** enw, oed, rhyw a grŵp ethnig y disgybl a waharddwyd;

**(b)** p'un a oedd gan y disgybl a waharddwyd Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, a yw'n cael ei asesu am ddatganiad o'r fath neu a yw'n derbyn cymorth drwy Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru (Ebrill 2002);

**(c)** p'un ai a yw'r disgybl a waharddwyd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol; a'r

**(ch)** rheswm dros y gwaharddiad[14].

**4.2.3** Lle mae gwaharddiad disgybl yn dod i rhwng 6 a 15 diwrnod, dim ond pan fydd rhiant neu ddisgybl yn mynegi dymuniad i wneud cynrychioliadau mae dyletswydd ar y corff llywodraethol i gyfarfod i ystyried yr amgylchiadau y cafodd y gwaharddiadau eu gwneud a p'un ai a ddylent gael eu derbyn yn ôl ai peidio[15]. Nid oes cyfarfod awtomatig.

### Arweiniad

**4.3** Yn dilyn y ddeddfwriaeth newydd cafwyd Arweiniad newydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yr arweiniad newydd)[16]. Ar y cyfan, mae'r gwahaniaethau rhwng yr hen arweiniad a'r arweiniad newydd yn adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

**4.4** Mae'r arweiniad newydd yn cyfeirio at Waharddiadau Answyddogol at "Dynnu Allan Gwirfoddol". Dywed:

*"Nid yw dylanwadu ar rieni neu eu hannog i dynnu eu plentyn o ysgol yn 'wirfoddol' fel modd o ddelio ag ymddygiad anodd neu heriol yn ymateb priodol. Mae gosod pwysau trwm ar rieni i dynnu eu plentyn allan, yn enwedig i'w dynnu allan yn barhaol, yn gwrthod addysg i'r plentyn, gan ei bod yn annhebygol y bydd lle mewn ysgol newydd yn gallu cael ei drefnu'n gyflym…"*

*"Mae tynnu allan yn 'wirfoddol' yn gwrthod yr amddiffyniad i'r disgybl ac i'r rhiant o gael mynediad i'r gweithdrefnau gwahardd ac apelio y mae ganddynt hawl i'w cael. Dylai pennaeth sy'n ystyried bod ymddygiad disgybl yn ddigon anodd i haeddu gwaharddiad, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol, ddefnyddio'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn yr arweiniad hwn. Fel arall, efallai y byddant am drafod y posibilrwydd o 'symud wedi'i reoli' i ysgol arall gyda'r rhieni a'r AALl."*

*"Bydd angen i AALlau ystyried pa gamau sy'n briodol lle mae ysgolion i'w gweld yn ymarfer tynnu allan yn 'wirfoddo"*[17].

**4.5** Nid yw'r arweiniad yn rhoi cyngor i AALlau ynghylch pa gamau sydd ar gael iddynt hwy.

**4.6** Mae'r arweiniad newydd yn amlygu'r ffaith y dylai ysgolion wneud popeth o fewn eu gallu i osgoi gwahardd disgyblion sy'n cael eu cefnogi drwy Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy dan y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu hasesu ar gyfer datganiad[18].

**4.7** Yn union cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r Canllawiau Cynhwysiant a Chymorth i Ddisgyblion[19]. Mae hwn yn datgan bod agwedd allweddol o waith yr AALl yn golygu gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo dulliau ysgol gyfan cadarnhaol ac i roi cymorth i ddisgyblion unigol er mwyn osgoi gwaharddiadau. Yn neilltuol, dylai AALlau gynnig cyngor a negeseuon clir ar pa mor annerbyniol yw "tynnu allan yn wirfoddol".

**4.8** Mae'r AALl hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Cymorth Ymddygiad newydd (Mai 2005) sy'n nodi ei fod yn "gosod pwys ar wella effeithiolrwydd ysgolion wrth ganfod, asesu ac ymyrryd gyda phlant sy'n dangos anawsterau ymddygiad mor gynnar â phosibl".

### Effaith y Ddeddfwriaeth a'r Canllawiau newydd

**4.9** Yn ddamcaniaethol, mae gofynion y ddeddfwriaeth newydd ar ysgolion a chyrff llywodraethol i adrodd pob gwaharddiad i'r AALl yn rhoi darlun mwy cywir o hanes gwaharddiadau disgybl, gan y bydd yr AALl yn cael gwybod am bob gwaharddiad, nid dim ond y rhai sy'n dod yn fwy na 5 diwrnod mewn un tymor ysgol. Serch hynny, nid yw'r ddeddfwriaeth newydd yn mynd i'r afael â phroblem gwaharddiadau answyddogol, gan nad ydynt yn gyfreithlon.

**4.10** Mae'r arweiniad newydd yn cadarnhau'r ffaith nad yw hi'n briodol gofyn i rieni gadw disgyblion o'r ysgol yn wirfoddol fel modd o ddelio ag ymddygiad heriol (hy eu gwahardd yn answyddogol). Mae hefyd yn cadarnhau mai mater i'r AALl yw ystyried pa gamau sy'n briodol i ddelio ag ysgolion sy'n gwneud hyn. Er ei fod yn mynd ychydig ymhellach nag arweiniad blaenorol y Cynulliad drwy ddatgan y gall ysgolion drafod y posibilrwydd o symud ysgol wedi'i reoli gydag AALlau yn hytrach na gwahardd yn answyddogol, nid yw eto'n darparu mecanwaith sy'n golygu y bydd AALlau yn cael gwybod fod gwaharddiadau answyddogol yn digwydd, ac nid yw'n nodi pa gamau y gall AALl eu cymryd yng nghyd-destun ysgolion yn cael ymreolaeth.

**4.11** Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn cael gwared â'r angen awtomatig i gyfarfod o'r corff llywodraethol ystyried achosion lle mae disgybl wedi cael ei wahardd yn swyddogol am rhwng 6 a 15 diwrnod. Dim ond os bydd rhiant neu ddisgybl yn mynegi dymuniad i wneud cynrychioliadau ar y gwaharddiad y bydd cyfarfod o'r fath yn cael ei gynnal.

[11] C.32, adran 52
[12] Rhif 3227 W. 308
[13] Reg 4(5) The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003
[14] Rheoliad 5(1) Rheoliadau Addysg (Cymru) 2003 (Gwaharddiadau Disgyblion ac Apeliadau) (Ysgolion Wedi'u Cynnal)
[15] Reg 6(1)(d)
[16] Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion C 01/2004 ac 1(A)/2004
[17] Para 11 Rhan 1
[18] Para 13.2 Rhan 1
[19] Canllawiau Cynhwysiant a Chymorth i Ddisgyblion Llywodraeth Cynulliad Cymru Tachwedd 2006

Er nad yw hyn yn effeithio ar achosion o waharddiadau answyddogol yn amlwg nac yn uniongyrchol, mae'n berthnasol i'r pryder nad yw rhieni a disgyblion yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol mewn perthynas â gwaharddiadau ysgol. Bydd y newid i'r gyfraith yn golygu, mewn gwirionedd, mai dim ond pan fydd gan ddisgybl neu riant disgybl y symbyliad a'r ddealltwriaeth i wneud cynrychioliadau y bydd y gwaharddiad yn cael ei ystyried gan y corff llywodraethol.

**4.12** Mae'r arweiniad newydd yn datgan y dylai ysgolion osgoi gwahardd disgyblion sy'n cael eu cefnogi drwy Weithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy dan y Cod Ymarfer AAA. Mae hyn yn golygu na ddylai disgybl yn sefyllfa Disgybl A, sydd heb gael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig eto, ond sy'n derbyn cymorth ychwanegol neu sy'n cael ei asesu yn unol â'r Cod Ymarfer AAA, gael ei wahardd. Mae'r arweiniad yn welliant i'r sefyllfa dan Arweiniad blaenorol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r effaith a gaiff ar waharddiadau answyddogol yn amheus, gan y gall ysgolion fod yn anfodlon cydnabod fod gwaharddiadau answyddogol yn waharddiadau o gwbl.

**4.13** Mae Cynllun Cymorth Ymddygiad newydd yr AALl yn "rhoi pwysau ar wella effeithiolrwydd ysgolion i ganfod, asesu ac ymyrryd gyda phlant sy'n arddangos anawsterau ymddygiad ar y cyfle cyntaf posibl". Mae hyn yn gywir yn ddamcaniaethol, ond rhaid paru hyn gyda chymorth gan yr AALl yn dod ar gael ar y cyfle cynharaf. Mae'n ymddangos nad oes symudiad o'r cysyniad traddodiadol o gyfeirio adnoddau i ddatrys y broblem pan all eisoes fod wedi mynd yn rhy bell i gael ei datrys.

### Crynodeb

**4.14** Nid yw'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad cyfredol, tra'n gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar ysgolion i adrodd am waharddiadau swyddogol i Gorff Llywodraethu'r Ysgol a'r AALl, yn mynd ymhellach na'r fframwaith blaenorol i rwystro gwaharddiadau answyddogol rhag digwydd. Mae gan yr AALl ddyletswydd i ddelio â gwaharddiadau o'r fath, ond caiff hyn ei wanhau gan ddiffyg mecanweithiau ffurfiol fyddai'n golygu bod AALlau'n dod yn ymwybodol bod gwaharddiadau answyddogol yn digwydd a diffyg eglurder ynghylch y sancsiynau y gellir eu defnyddio ar ysgolion sy'n gweithredu'r arfer anghyfreithlon hwn.



# Pennod 5

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

### Problem gwaharddiadau answyddogol

**5.1** Mae delio gyda disgybl sy'n arddangos ymddygiad heriol yn gyson yn gosod nifer o heriau i ysgolion, AALlau a rhieni fel ei gilydd. Ond mae'n hanfodol bwysig bod y ddarpariaeth addysgol i gwrdd ag anghenion disgyblion yn cael ei diogelu a bod disgyblion yn derbyn addysg briodol, o fewn ysgolion prif ffrwd neu fel arall.

**5.2** Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â gwaharddiadau'n amlinellu'r cyfyngiadau ar wahardd disgyblion o'r ysgol a dyletswyddau ysgolion ac AALlau i ddilyn y gweithdrefnau cywir a sicrhau bod disgyblion yn derbyn addysg briodol. Cyn belled â bod ysgolion yn gwahardd disgyblion yn unol â'r fframwaith cyfreithiol, bydd y dulliau gwarchod a ddarperir gan y fframwaith cyfreithiol hwnnw yn weithredol.

**5.3** Gall problemau godi, ac maen nhw yn gwneud, pan nad yw ysgolion yn gwahardd disgyblion yn "swyddogol" yn unol â'r fframwaith cyfreithiol, ond yn hytrach yn cytuno gyda'r rhiant bod y disgybl yn cael ei dynnu o'r ysgol yn "wirfoddol", fel ffordd o ddelio gydag ymddygiad heriol y disgybl. Mae'r trefniadau hyn, sy'n waharddiadau answyddogol, y tu allan i gylch gorchwyl y ddeddfwriaeth sy'n delio â gwaharddiadau ysgol. Mae canlyniadau gwaharddiadau answyddogol yn ddifrifol, gyda'r disgyblion sy'n cael eu heffeithio'n colli allan ar addysg briodol a gohirio'r angen i fynd i'r afael â'r mater nes ei bod hi'n rhy hwyr o bosibl. Gall hefyd roi disgyblion mewn perygl mewn nifer o ffyrdd eraill.

**5.4** Wrth ystyried sut y dylid delio â phroblem gwaharddiadau answyddogol, mae'n bwysig deall:

**5.4.1** yr amgylchiadau sy'n arwain at fod ysgol yn dewis gwahardd disgyblion yn answyddogol neu'n cytuno â mesurau ad hoc sy'n cael yr un effaith; a

**5.4.2** sut y gall AALlau fonitro a delio gyda gwaharddiadau answyddogol.

### Yr amgylchiadau sy'n arwain at fod ysgolion yn gwahardd disgyblion yn answyddogol

**5.5** Mae achos Disgybl A wedi amlygu'r ffactorau all arwain at fod ysgolion yn gwahardd disgyblion yn answyddogol fel dull o ddelio gydag ymddygiad heriol:

**5.6** Y disgyblion sydd yn y "perygl" mwyaf o gael eu gwahardd yn answyddogol yw'r rhai, fel Disgybl A, sydd heb Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ac sy'n arddangos ymddygiad heriol yn gyson, nad yw'n ddigon difrifol i haeddu gwaharddiad parhaol. Gan ddibynnu ar bolisi'r AALl ei hun, efallai na fydd y disgyblion hyn yn gymwys i gael cymorth addysgol ychwanegol gan yr AALl oni bai a nes bod eu hymddygiad yn gwaethygu i'r pwynt o gael eu gwahardd yn barhaol neu gael asesiad o'u Hanghenion Addysgol Arbennig. Gall hyn olygu nad yw'r cymorth priodol yn dod ar gael am gryn amser. Heb gymorth fel hyn, mae ysgolion yn wynebu sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt naill ai wahardd disgybl yn barhaol neu ddal i ganiatáu i'r disgybl fynychu'r ysgol, gan darfu ar ddosbarthiadau ac o bosibl yn gosod disgyblion eraill a staff mewn perygl.

**5.7** Mae ysgolion yn wynebu cyfyng-gyngor anodd wrth benderfynu sut orau i ddelio â disgyblion "mewn perygl". Rhaid cadw cydbwysedd rhwng yr angen i ddisgyblu'r disgybl a dyletswydd i ddarparu addysg briodol i'r disgybl hwnnw. Mae gwahardd yn barhaol yn gam difrifol, ac mae AALlau'n ei anghymell, ac efallai nad yw ymddygiad y disgybl yn ei gyfiawnhau yn gynnar yn y broses. Heb gymorth addysgol ychwanegol, gall ysgolion deimlo'n ddiymadferth i ddelio gyda'r disgybl a gallant droi at waharddiadau answyddogol.

**5.8** Canlyniad y gwaharddiad answyddogol yw y gall y disgybl fod yn absennol o'r ysgol am gyfnodau hir, heb i'r corff llywodraethol neu'r AALl wybod am hynny a heb y dulliau gwarchod a'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion sydd wedi eu gwahardd yn swyddogol. Yn eironig, gall gwaharddiadau answyddogol, drwy symud y disgybl allan o amgylchedd yr ysgol, hefyd lesteirio cynnydd drwy unrhyw feini prawf cam wrth gam a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn i gyllid a chymorth ychwanegol ddod ar gael.

### Sut y gall AALlau ddelio gyda gwaharddiadau answyddogol

**5.9** Roedd y pwysau ar yr ysgol i wahardd yn answyddogol yn achos Disgybl A wedi ei gymhlethu gan y ffaith nad oedd unrhyw angymelliadau clir wrth wneud hynny. Mae'r arweiniad newydd yn cydnabod fod gwaharddiadau answyddogol fel hyn yn digwydd ac mae'n gwbl glir nad ydyn nhw'n briodol. Dywedir wrth AALlau ddelio gydag ysgolion sy'n ymarfer gwaharddiadau answyddogol mewn modd addas. Ac eto, nid yw AALlau wedi cael arweiniad manwl ynghylch pa gamau y gallant eu cymryd ac mae'n dal yn aneglur pa sancsiynau sydd ar gael iddynt yn wyneb ymreolaeth ysgolion. Hefyd, nid oes unrhyw fecanwaith ffurfiol i AALl ddod yn ymwybodol o waharddiadau answyddogol fel arfer.

**5.10** Ceir nifer o gymhellion y gallai AALlau ystyried eu defnyddio, allai ddarparu mecanwaith i nodi pryd y mae gwaharddiadau answyddogol yn digwydd ac i ddelio â nhw.

**5.10.1** Dylid cynnal archwiliadau o gofrestri, lle mae AALlau o bryd i'w gilydd, a heb rybudd, yn gwneud archwiliad o bob cofrestr presenoldeb mewn ysgol benodol. Byddai patrymau absenoldeb yn dynodi gwaharddiadau answyddogol yn dod yn amlwg, a gallai AALlau wedyn ystyried pa sancsiynau i'w defnyddio a/neu ba gamau i'w trefnu i ddatrys unrhyw broblemau. Gall y bygythiad o hyn fod yn effeithiol wrth anghymell ysgolion rhag gwahardd disgyblion yn answyddogol.

**5.10.2** Dylai pob absenoldeb awdurdodedig a heb awdurdod gael ei adrodd i'r AALl. Dylai'r Gwasanaeth Lles Addysg fonitro'r adroddiadau hyn ac ymyrryd lle mae nifer yr absenoldebau hanner dydd ar gyfer unrhyw ddisgybl yn fwy na 20.

**5.10.3** Dylid cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymysg rhieni a disgyblion, i sicrhau eu bod yn deall statws cyfreithiol gwaharddiadau answyddogol. Gall hyn arwain at ragor o rieni'n gwrthod cytuno i dynnu eu plentyn o'r ysgol neu'n rhoi gwybod i'r AALl os yw eu plentyn wedi cael ei wahardd yn answyddogol, e.e. mae gan lawer o ysgolion gytundebau cartref/ysgol lle gall yr ysgol ymrwymo i beidio â gofyn i rieni gadw eu plentyn gartref oni bai eu bod yn bwriadu ei wahardd ar unwaith.



**5.10.4** Dylid nodi sancsiynau ar gyfer ysgolion sy'n cael eu dal yn gwahardd disgyblion yn answyddogol. Byddai hyn yn rhoi anghymhelliad llwyr i ysgolion sy'n ystyried gwahardd disgybl yn answyddogol.

**5.11** Mae targedu adnoddau ar ddiwedd y broblem yn ymddangos yn amhriodol pe byddai ymyrryd yn gynnar yn gallu arwain at ddatrys materion ymddygiadol cyn iddynt ddatblygu. Mae adroddiad diweddar Estyn, "Ymddygiad yng Nghymru: Arfer Da wrth Reoli Ymddygiad Heriol", Mehefin 2006, yn cynnig cyngor ar arfer da i Lywodraeth Cynulliad Cymru i reoli ymddygiad disgyblion sy'n herio ysgolion. Mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o arfer da mewn ysgolion, rhai o'r mesurau y mae AALlau'n eu cymryd i gynorthwyo ysgolion i reoli ymddygiad, y gweithio mewn partneriaeth sy'n helpu i wella ymddygiad disgyblion ac yn hysbysu hyrwyddo lles emosiynol ac iechyd meddwl. Mae 18 o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, AALlau ac ysgolion, ac rwyf yn cefnogi'r argymhellion hyn.

**5.12** Rwy'n ymwybodol fod nifer o awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn datganoli eu cyllideb AAA cyfan yn uniongyrchol i ysgolion a bod eraill yn ystyried dilyn y drefn hon. Er y byddai hyn, yn ddamcaniaethol, yn ymddangos fel arfer da drwy gael gwared â'r symudiad araf weithiau tuag at gymorth priodol, mae hefyd yn cael gwared ar amddiffyniad asesu priodol gan weithwyr proffesiynol cymwys ar gyfer ein disgyblion mwyaf bregus. Fel gyda Disgybl A, mae nifer o Gydlynwyr AAA yn cwestiynu diagnosis proffesiynol disgyblion o'r fath. Ar ben hyn, ni all AALlau ddatganoli'r cyfrifoldeb dros asesu statudol. Bydd angen gosod mesurau diogelwch yn eu lle i drin ag achosion fel hyn ac i sicrhau fod yr arian sy'n cael ei wario'n cael ei archwilio. Byddaf yn monitro'r datblygiad hwn yn ofalus er mwyn sicrhau fod plant yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

### Casgliadau

**5.13** Fel cafodd ei nodi uchod, mae achos Disgybl A wedi amlygu nifer o ffactorau risg a phwysau all arwain at ddisgyblion yn cael eu gwahardd yn answyddogol. Mae hefyd wedi amlygu diffygion y fframwaith cyfreithiol ac arweiniad cyfredol wrth rwystro gwaharddiadau o'r fath rhag digwydd.

**5.14** Dan y fframwaith presennol, mae'n ymddangos fod gwaharddiadau answyddogol yn ateb "hawdd" ac ymarferol i ysgolion a rhieni sy'n ymlafnio i ddelio â disgyblion sy'n camymddwyn yn gyson a lle nad oes dim cymorth addysgol ar gael iddynt. Yn anffodus, gall gwaharddiadau answyddogol achosi mwy o broblemau nag y maent yn eu datrys. Mae'r natur "answyddogol" yn golygu na fydd disgybl sydd wedi'i wahardd yn answyddogol yn elwa o'r amddiffyniad cyfreithiol sydd ar gael i ddisgyblion sydd wedi eu gwahardd yn gyfreithlon a gallant yn hawdd golli allan ar addysg briodol. Yn arwyddocaol, efallai na fydd AALlau yn dod yn ymwybodol o waharddiadau answyddogol, ac felly o nifer absenoldebau disgybl o'r ysgol, oni bai bod rhiant yn eu hysbysu. Mae hyn yn creu cylch cythreulig lle nad yw AALl yn ymwybodol o wir faint y broblem gyda disgybl penodol ac felly nid yw'n gallu cymryd y camau angenrheidiol i helpu'r disgybl hwnnw. Mae hefyd yn creu cylch cythreulig lle mae un gwaharddiad answyddogol yn esgor ar waharddiadau answyddogol pellach.

Mae disgybl sy'n dod yn ôl yn dilyn gwaharddiad answyddogol, heb strategaeth na chymorth ar gael, yn debygol iawn o gael ei wahardd yn answyddogol yn fuan eto

**5.15** Mae angen agwedd gyfannol i ddelio â gwaharddiadau answyddogol, er mwyn rhwystro ysgolion rhag dod i'r canlyniad nad oes dewis arall, ac i sicrhau y gall AALlau ddelio'n effeithiol ag achosion o wahardd yn answyddogol. Bydd angen ymrwymiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, AALlau, ysgolion a rhieni fel ei gilydd i wneud hyn.

**5.16** Gofynnir i lawer o rieni a gofalwyr dynnu eu plant o'r ysgol oherwydd problemau ymddygiad. Mae'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi sefydlu Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, a chroesewir hyn. Bwriad yr adolygiad yw creu darlun gwirioneddol o'r sefyllfa yng Nghymru, casglu ac adolygu arfer da wrth fynd i'r afael â materion presenoldeb ac ymddygiad a chynhyrchu argymhellion clir i symud y gwaith ymlaen. Fel y nodwyd uchod, mae adroddiad diweddar Estyn, "Ymddygiad yng Nghymru: Arfer Da wrth Reoli Ymddygiad Heriol" yn gosod allan yn glir raglenni sydd eisoes yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus mewn rhannau o Gymru ac mae'n gwneud argymhellion rhagorol i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Dylai gwaith ataliol, asesu a chymorth mwy effeithiol, gwell a mwy rhagweithiol a gweithio amlasiantaethol leihau'r angen a deimlir gan ysgolion i wahardd plant yn answyddogol.

**5.17** Y neges gref gan bawb yr ymgynghorwyd â hwy yn yr ymchwiliad hwn yw bod atal yn well na gwella, a bod angen mawr am gael cyllido a chymorth allanol ar gael i ysgolion yn gynnar yn y broses. Er bod hyn yn ddamcaniaethol gadarn, yn ymarferol bydd hi'n anorfod y bydd angen i AALlau osod cyfyngiadau a meini prawf i sicrhau fod cymorth o'r fath yn cael ei weinyddu'n deg ac o fewn y gyllideb. Fodd bynnag, byddai mwy o hyblygrwydd yn golygu y gallai ysgolion, ar ôl canfod disgybl sydd mewn perygl o gael ei wahardd, yn gallu cael mynediad at y cymorth priodol mor gynnar â phosibl.



## Argymhellion

Yn seiliedig ar hanes trist Disgybl A a phrofiadau nifer o ddisgyblion eraill sydd wedi cael eu gwahardd yn answyddogol, rwy'n argymell bod:

### Awdurdodau Addysg Lleol yn:

**1.** Cadarnhau'n glir y neges yng Nghylchlythyr 47/2006, "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion" i bob ysgol bod gwaharddiadau answyddogol, hynny yw lle mae rhieni'n cael cais i dynnu plentyn o ysgol yn wirfoddol i osgoi gwaharddiad, yn annerbyniol a nodi'n glir y sancsiynau a ddefnyddir pe byddai ysgolion yn gwahardd yn answyddogol.

**2.** Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymysg rhieni a disgyblion i sicrhau eu bod yn deall nad oes gan waharddiadau answyddogol unrhyw statws cyfreithiol gan amlinellu eu hawliau a pha gymorth sydd ar gael ar eu cyfer hwy a'u plant. Gall hyn gynnwys galw ar ysgolion i ddefnyddio prosbectws yr ysgol, cytundebau cartref ysgol neu ddulliau cyfathrebu addas eraill.

**3.** Sicrhau fod pob disgybl sy'n cael ei wahardd yn barhaol neu ei wahardd am ddau gyfnod penodol mewn un flwyddyn ysgol yn cael ei asesu gan y Seicolegydd Addysg.

**4.** Cynnal archwiliadau cofrestri o bryd i'w gilydd a heb rybudd ar bob cofrestr presenoldeb.

**5.** Adolygu'r cymorth sydd ar gael i ysgolion, yn cynnwys ystyried:

**a)** y cam y mae cymorth yn dod ar gael gan yr AALl

**b)** hyfforddiant ychwanegol i staff mewn ysgolion i'w helpu i wella ymddygiad disgyblion, gyda'r hyfforddiant yn cynnwys y cydberthynas rhwng anawsterau dysgu, anghenion arbennig, anabledd ac ymddygiad heriol

**c)** arweiniad wrth weithredu rhaglenni rheoli ymddygiad

**d)** partneriaethau gwell ac effeithiol rhwng asiantaethau i gynorthwyo ysgolion, rhieni a disgyblion

**Yr wyf yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n:**

**6.** Cyhoeddi arweiniad i alw ar ysgolion i adrodd am bob absenoldeb awdurdodedig a heb awdurdod i'r AALl. Dylai'r Gwasanaeth Lles Addysg fonitro'r adroddiadau hyn gan ymyrryd lle mae nifer yr absenoldebau hanner diwrnod yn fwy nag 20 i unrhyw ddisgybl.

**7.** Cyhoeddi arweiniad i AALlau ynghylch pa sancsiynau y gallant eu gosod os yw ysgolion yn gwahardd disgyblion yn answyddogol.

**8.** Gwneud cais i'r Grŵp Cenedlaethol Adolygu Presenoldeb ac Ymddygiad i ystyried yr adroddiad hwn ac i ystyried a oes angen iddynt wneud argymhellion pellach i atal yr arfer o wahardd yn answyddogol.

**9.** Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn gallu mynd at wasanaethau eiriol annibynnol yn hawdd ar ôl iddynt fod mewn perygl o gael eu gwahardd neu os ydynt wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn swyddogol neu'n answyddogol.

# Atodiad A

## Datganiad Mam Disgybl A

**1.** Fi yw mam Disgybl A fu'n mynychu'r ysgol o 5 Medi 2001 tan 29 Medi 2003. Cafodd fy mabei wahardd yn barhaol ar 29 Medi 2003. Bu farw'n ddiweddarach y diwrnod hwnnw'n 13 mlwydd oed.

**2.** Nid yr ysgol hon oedd y dewis naturiol i'm mab ei mynychu ar ôl gadael yr ysgol iau. Byddai fy mab yn naturiol wedi mynd i ysgol arall. Byddai'n well gan fy mab fod wedi mynd i'r ysgol arall gan fod ei ffrindiau o'r ysgol iau yn mynd yno. Dewisais i'm mab fynd i'r ysgol am nifer o resymau. Roedd fy mab hynaf (Disgybl B) yn mynd i'r ysgol ac roedd ar fin sefyll ei arholiadau lefel A yno. Roeddwn yn meddwl y byddai'n syniad da i Ddisgybl A fod yn yr un ysgol â'i frawd. Roeddwn wedi dod i adnabod yr athrawon yn yr ysgol yn ystod cyfnod fy mab hynaf yno. Hefyd, roedd fy mab wedi cael rhai problemau yn ystod ei ddwy flynedd olaf yn yr ysgol iau, oedd wedi golygu fy mod wedi cael fy ngalw i mewn i weld y pennaeth. Roedd gan fy mab lawer iawn o gymeriad, ond nid oedd ganddo gryfder yn ei gymeriad. Roeddwn yn bryderus ei fod mor hawdd ei arwain ac yn methu gweld canlyniadau ei weithredoedd. Roeddwn felly am iddo fynychu ysgol oedd yn agos at ein cartref. Nid oedd yr ysgol arall yn daith hawdd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol a byddai wedi golygu y byddai fy mab yn dal bws. Roedd hi'n gwneud mwy o synnwyr i'm mab fynd i'r ysgol oedd i lawr y ffordd o'n cartref ac ysgol oedd yn gyfarwydd iawn i ni. Gan fod fy mab yn fachgen cymdeithasol iawn ac yn boblogaidd iawn, credais y byddai'n addasu'n ddigon hawdd i'r newid ysgol ac y byddai'n croesawu'r cyfle i gael mwy o ffrindiau fyth.

**3.** Cafodd fy mab gychwyn da yn yr ysgol ym mis Medi 2001. Cofiaf ei fod yn falch o fynd i'r ysgol a'i fod yn ofalus o'i ymddangosiad, gan wneud yn siŵr fod ei siaced wedi ei botymu er enghraifft. Tua mis Tachwedd 2001, fe es i noson "Rheini Newydd" a'r argraff a ges i gan yr athrawon - yn enwedig gan ei bennaeth blwyddyn - oedd nad oedd unrhyw broblemau a'i fod yn setlo i lawr yn dda. Siaradodd hefyd am gymaint yr oedd yn mwynhau dysgu fy mab hynaf. Fel y digwyddodd hi, ni fynychodd fy mab hynaf yr ysgol i wneud ei arholiadau lefel A gan ei fod wedi cael cynnig lle yn yr Academi Pêl-Droed yn y coleg.

**4.** Wrth i'm mab fynd yn ei flaen drwy ei flwyddyn gyntaf yn yr ysgol, dechreuodd gael problemau yn yr ysgol. Doedd e ddim yn gwneud ei waith cartref a doedd e ddim yn canolbwyntio yn y gwersi. Cysylltodd Athro A ac Athro B yn yr ysgol â mi gan ei fod wedi bod yn camymddwyn ac wedi bod yn amharu ar wersi. Roedd hyn yn fy mhoeni, a bûm yn cydweithredu'n barod gydag unrhyw awgrymiadau gafodd eu cynnig. Holais a oeddent yn meddwl tybed a allai fod yn ddyslecsig a thrafodais y ffaith fy mod yn cofio iddo gael ei asesu pan yn y babanod. Teimlai Athro A nad oedd hynny'n wir ac mai dewis bod yn aflonyddgar oedd e. Roedden nhw wedi dod i'r casgliad y byddai'n mynd ati i wneud ei waith pan fyddai'n cael ei roi mewn ystafell ar wahân. Soniodd Athro B am fudiad o'r enw NCH Cymru yr oedd wedi darllen erthygl yn yr Echo amdano. Awgrymais y dylwn gysylltu â nhw, gan fy mod yn agored i unrhyw awgrymiadau ynghylch ble gallwn i ddod o hyd i gymorth.

**5.** Er gwaethaf yr hyn a ddywedodd Athro A ac Athro B, roeddwn yn agor fy meddwl i'r ffaith ei bod yn bosibl bod angen sylw arbennig ar fy mab gan fod ei ymddygiad adref hefyd wedi mynd yn anoddach delio ag ef. Cysylltais â'r Tîm Rhianta Ieuenctid yn NCH Cymru a threfnu i weld Mentor B. Cawsom gyfarfod a buom yn trafod yr her o ddelio gydag ymddygiad fy mab, a chynigiodd hi gyngor defnyddiol i mi y medrais ei roi ar waith.

Roeddwn yn bryderus iawn fy mod yn rhiant gwael, ac roedd unrhyw gyfarfodydd y byddwn yn eu cael yn yr ysgol bob amser yn fy ngadael yn teimlo'n llawn euogrwydd am y ffaith fy mod yn fethiant i'm mab drwy beidio â bod yn rhiant da. Ond pan gwrddais â Mentor B, roedd hi'n falch fod yna ffiniau yn eu lle a buom yn trafod y ffaith y gallai fy mab fod yn mynd trwy gyfnod anodd neu y gallai fod yn rhywbeth mwy difrifol, gan olygu efallai y byddai angen rhyw fath o gefnogaeth ychwanegol arno yn yr ysgol. Ei chyngor pennaf oedd peidio â bod mor llym gyda fy mab ac i newid fy agwedd tuag ato. Ar y dechrau byddwn yn cwrdd â Mentor B unwaith yr wythnos, ac yna bu ei chydweithiwr Mentor C yn cwrdd â'm mab unwaith yr wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Amcan Mentor C oedd trafod gyda fy mab y ffordd yr oedd yn delio â rhai sefyllfaoedd. Roedd fy mab i'w weld yn mwynhau ei drafodaethau gyda Mentor C ac roedd bob amser yn barod i roi'r awr yr wythnos o'i amser i gwrdd â hi. Roedd fy mab i fod i fynychu gwersyll gwyliau - lle y byddai'n mynd iddo bob blwyddyn ac y byddai'n ei fwynhau'n fawr iawn. Byddwn yn ei ollwng yno ar ddechrau'r dydd ac yn ei gasglu ar y diwedd. Byddai ei ddydd yn llawn o wahanol fathau o weithgareddau. Yr Haf hwnnw, roedd yn well gan fy mab aros gyda'i ffrindiau o'r ysgol. Awgrymodd Mentor B y dylwn ganiatáu ei ryddid iddo gan sicrhau ei bod yn hollol normal i fechgyn 'ymlacio' gyda'i gilydd fel hyn. Roeddwn yn nerfus ynghylch hyn gan fy mod yn teimlo fod fy mab angen strwythur yn ystod y dydd. Felly cytunais y dylai gael y cyfle hwn i fod gyda'i ffrindiau yn ystod gwyliau'r Haf. Yn gynnar yn ystod y gwyliau, cafodd fy mab ddamwain yn y parc, oedd yn golygu fod rhaid iddo fynd i'r Adran Ddamweiniau. Roedd carreg wedi cael ei thaflu at ei ben. Ar ôl hynny, gofynnais a allwn drefnu iddo fynd i Wersyll Gweithgareddau.

**6.** Dechreuodd Mentor B weithio gydag ef yn wythnosol o fis Medi 2002. Roedd trafodaethau eisoes wedi cael eu cynnal ar ddiwedd Blwyddyn 7 y byddai'n symud i ddosbarth gwahanol pan fyddai'n dod yn ôl i Flwyddyn 8. Nid oedd Mentor B na minnau'n hapus ynglŷn â hyn gan nad oedd i'w weld yn cynnig y cymorth oedd ei angen arno. Doedd yntau ddim yn hoff o'r syniad chwaith gan ei fod yn golygu y byddai mewn dosbarth gwahanol i'w ffrindiau. Ond fe wnes i gefnogi'r ysgol gyda'r penderfyniad hwn gan fy mod yn ymddiried yn yr ysgol ac ym mhrofiad yr athrawon ac roeddwn o'r farn ei bod hi'n well cydweithredu â'r ysgol na pheidio gwneud. Felly ym mis Medi 2002 aeth i mewn i grŵp Blwyddyn 8 newydd yn yr ysgol. Wnaeth e ddim setlo yno o'r cychwyn cyntaf. Yn fuan iawn, cysylltodd dau athro â mi - Athro C, oedd yn Ddirprwy Bennaeth ar y pryd, ac Athro D, pennaeth blwyddyn fy mab. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gwahanol; roedd rhai ohonynt yn cynnwys Mentor B. Awgrym Mentor B oedd y byddai'n cynyddu ei gwaith hi gyda fy mab. Dywedwyd wrthyf fod yr ysgol wedi ceisio defnyddio amryw o strategaethau gyda fy mab er mwyn delio â'i ymddygiad aflonyddgar yn yr ysgol, yn cynnwys ei roi mewn ystafell ar wahân i weddill y dosbarth. Roeddwn yn pryderu'n fawr am fy mab ac am y ffaith ei fod yn arddangos ymddygiad mor ofnadwy. Doedd gen i ddim syniad o fath yn y byd ynghylch sut i ddelio â hyn i gyd. Felly fe wnes i bopeth a ofynnodd yr ysgol i mi. Ystyr hynny oedd pan ofynnodd Athro C i mi yn ystod un o'r llu cyfarfodydd i'w gadw adref o'r 6 Rhagfyr 2002 tan ddiwedd y tymor, cytunais yn barod gan fy mod yn teimlo mai dyna'r unig ffordd o sicrhau y byddai fy mab yn y pen draw'n gallu mynychu'r ysgol a mwynhau'r dysgu yr oedd mor daer i'w dderbyn. Roedd yn fachgen oedd wrth ei fodd yn dysgu, roedd yn uchelgeisiol iawn. Roedd eisiau bod yn gyfreithiwr neu'n gogydd ar ôl gadael yr ysgol. Yn ystod y gwyliau a dros hanner tymor byddai bob amser yn mynychu llefydd oedd yn llawn hwyl a dysgu. Pan oedd yn ddigon hen (Blynyddoedd 5 a 6) fe fynychodd Ganolfan Ieuenctid ac yn lle dewis y gweithgareddau chwaraeon, byddai bob amser yn dewis y rhai coginio neu'r rhai peintio gwydr neu'r dosbarthiadau Fimo.

Yn amlach na pheidio, ef fyddai'r unig fachgen yn y dosbarth coginio - roedd wrth ei fodd â hynny ac roedd y merched wrth eu bodd yn ei gael yno, gan y byddai wastad yn tynnu coes gyda nhw.

**7.** Yn ystod y cyfarfod, cychwynnodd Athro C drwy ddweud ei bod yn amser prysur i'r ysgol ac na allai bellach glustnodi ei amser i'm mab i'r graddau yr oedd wedi bod yn ei wneud. Dywedodd hefyd fod rhai athrawon bellach yn gwrthod addysgu fy mab. Dywedodd wrthyf fod fy mab mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol ond teimlai na allai ef wneud hynny, gan nad oedd ganddo achos digon cryf i'r llywodraethwyr ei gefnogi. Roeddwn wedi fy mrawychu gan yr hyn yr oedd Athro C yn ei ddweud wrthyf a'm greddf oedd helpu'r ysgol a gwneud yr hyn yr oeddent yn ei ofyn. Felly roedd fy nghydweithrediad i'n hanfodol er mwyn rhwystro fy mab rhag cael ei wahardd yn barhaol. Gofynnodd Athro C hefyd i mi edrych ar y syniad o symud fy mab i ysgol arall. Awgrymodd y dylwn edrych ar yr opsiwn ac yn y cyfamser byddai'n cysylltu â Swyddog o'r AALl, Swyddog D, i weld pa gymorth y gallai hwnnw ei gynnig. Dywedais wrth Athro C y byddwn yn ceisio trefnu i'm mab dreulio diwrnod neu ddau gyda fy rhieni. Roeddwn yn teimlo y gallai fy mab elwa o'r profiad, gan fod fy nhad y math o berson fyddai'n ei annog i gymryd rhan yn y gwaith yr oedd yn ei wneud. Dangosodd i fy mab sut i dorri coed tân ac adeiladu waliau. Byddai fy mab hefyd yn helpu i fwydo'r gwartheg. Roeddwn yn gobeithio, unwaith y byddwn wedi cael cyfle i siarad â'm mab dros wyliau'r Nadolig, y byddai'n gallu mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Ionawr mewn gwell cyflwr meddwl. Cytunodd Athro C a minnau i gyfarfod unwaith eto ar ddechrau'r tymor newydd. Roeddwn yn ymddiried yn Athro C ac yn credu ei fod eisiau helpu fy mab. Fe wnes i ysgrifennu ato hyd yn oed, ar ôl ein cyfarfod, i ddiolch iddo am ei gymorth, gan fy mod yn ymwybodol ei fod yn cael ei symud i swyddogaeth newydd gyda'r ysgol.

**8.** Nid oedd Mentor B yn hapus fod fy mab yn awr yn cael ei anfon adref fel hyn. Dywedais wrthi fy mod yn teimlo'n fwy cyffyrddus yn cydweithredu gyda'r ysgol nag yn peidio â gwneud. Dywedais wrthi fy mod yn hyderus y byddai Athro C yn canfod y cymorth iawn ar gyfer fy mab. Awgrymodd hi y dylwn gysylltu â Swyddog E yn Adran Lles Addysg yr AALl. Fe wnes yr hyn a awgrymodd Mentor B a chyngor Swyddog E oedd er bod yr ysgol yn gweithredu'n afreolaidd, cytunodd hithau ei bod yn well cydweithredu na pheidio. Dywedodd Swyddog E wrthyf hefyd y byddai'n rhaid i'w hadran hi ddod i mewn pe byddai'r ysgol yn parhau i weithredu fel hyn ond am y tro roeddwn i fod i gytuno â'r hyn y cyfeiriodd hi ato fel 'gwaharddiadau answyddogol'. Rhoddodd hyn yr hyder i mi barhau gyda'r agwedd yr oeddwn yn ei gymryd. Cymerais gysur o'r ffaith fy mod wedi rhoi gwybod i'r Adran Lles Addysg am yr hyn yr oeddwn yn ei wneud a mod i hefyd yn cydweithredu ag ysgol fy mab. Felly pan ddaeth yr amser i mi gytuno i gadw fy mab adref, roeddwn yn ymwybodol nad oedd hynny'n ddelfrydol, ond roeddwn yn teimlo fod gen i gefnogaeth lwyr yr ysgol wrth ymrwymo i'r cytundeb hwn.

**9.** Pan aeth fy mab yn ôl i'r ysgol ym mis Ionawr 2003, roedd yr un problemau'n codi eto. Roedd yn aflonyddgar yn y dosbarth a doedd e ddim yn gallu canolbwyntio. Er bod Mentor B yn dal i weithio gydag ef, roedd hi'n bryderus iawn nad oedd yr ysgol yn ystyried ei asesu i weld a oedd yn achos anghenion arbennig mewn gwirionedd. Roedd Mentor B a minnau wedi mynegi ein pryderon sawl gwaith cyn y cyfnod hwn. Ond teimlai Athro A, Athro C ac Athro D nad oedd hwn yn llwybr gwerth ei archwilio, roeddent yn teimlo y byddai'r cymorth angenrheidiol yn dod drwy Swyddog D ac Uned Cyfeirio Disgyblion. Soniwyd sawl gwaith am ei enw. Yn fuan iawn daethom at gyfnod pan na fyddai'r ysgol bellach yn fodlon cael fy mab yn yr ysgol oni bai fod ganddo rywun gydag ef. Roedd fy ngŵr a minnau eisoes wedi bod yn ei gasglu yn ystod yr awr ginio, ond roedd yr ysgol yn teimlo bellach nad oeddent yn gallu clustnodi athro i 'ofalu amdano' drwy'r amser.



Arweiniodd hyn at Fentor B yn ei chynnig ei hun i fod y person fyddai gydag ef. Er nad oedd hi'n hapus â'r sefyllfa, fe gydweithredodd gan ein bod yn teimlo ei bod yn well bod fy mab yn yr ysgol yn hytrach nag allan o'r ysgol. Roedd Mentor B yn anghyfforddus â'r sefyllfa, a'i swyddogaeth o gael ei gweld fel "ceidwad" fy mab. Torrodd y berthynas rhwng fy mab a Mentor B i lawr wrth iddo ef ei gweld fel y "person drwg" yn hyn. Roedd yn teimlo embaras ei bod yn bresennol yn y dosbarth, ac arweiniodd hynny yn ei dro at waeth ymddygiad. Ddiwedd mis Ionawr cyfarfu fy mab a minnau â'r Seicolegydd Addysg. Fe ddes i â'm mab i mewn i'r ysgol ar gyfer y cyfarfod a mynd ag ef adref gyda mi. Erbyn hyn, roedd y 'gwaharddiadau answyddogol' yn digwydd yn fwy rheolaidd. Treuliodd fy mab y rhan fwyaf o fis Chwefror 2003 allan o'r ysgol. O ganlyniad i'r amser yr oedd eisoes wedi'i dreulio allan o'r ysgol roedd hi'n awr yn mynd yn fwyfwy anodd i wneud iddo aros yn y tŷ. Gan fy mod i'n gweithio, roedd cyfnodau yn y diwrnod pan fyddai raid i mi ei adael yn y tŷ ar ei ben ei hun. Ar y cyfan, fe lwyddais i wneud yn siŵr fod rhywun yn y tŷ gydag ef ac weithiau byddai'n dod i'r gwaith gyda mi. Ar yr achlysuron prin y byddai fy mab adref ar ei ben ei hun, erbyn hyn roedd yn mentro allan o'r tŷ. Ffactor a gyfrannodd at y newid hwn oedd y ffaith fod bachgen arall o'r ysgol hefyd yn treulio mwy o amser allan o'r ysgol nag ynddi. Felly byddai'r ddau fachgen yn llwyddo i gwrdd â'i gilydd rywbryd yn ystod y dydd - hyd yn oed os oedd hynny'n golygu dringo allan drwy'r ffenestr. Ar nifer o achlysuron, byddai mam y bachgen arall a minnau'n gorfod mynd i chwilio am y bechgyn. Bydden nhw'n anelu am y goedwig gerllaw'r ysgol gan eu bod yn gwybod ei bod yn fan cyfarfod i blant eraill o'r ysgol.

**10.** Yn ystod y cyfnod yr oedd fy mab allan o'r ysgol, ni dderbyniodd ddim gwaith bron gan yr ysgol. Rwy'n credu i'r ysgol anfon gwaith cartref ato ddim mwy na llond dwrn o weithiau tra'i fod allan o'r ysgol. Roeddwn yn pryderu am sut i ateb ei anghenion gartref gan nad oeddwn i'n gallu ei ddysgu. Byddwn yn ei galonogi ac yn ceisio ei helpu gyda'r darn o waith yr oedd yr ysgol wedi anfon ato. Rwy'n cofio'n benodol helpu fy mab gyda darn o waith Cymraeg a darn o waith Saesneg. Rwy'n cofio ei fod yn falch iawn o'r gwaith a wnaeth. Ffoniais yr ysgol i weld sut yr oedd wedi'i wneud yn y darnau gwaith hyn a dywedwyd wrthyf gan Athro D (y pennaeth blwyddyn) eu bod rhywsut wedi mynd ar goll. Fe wnes i drafod y gwaith oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer fy mab gyda'r ysgol, ac roedd cynllun y dylai gwaith fod yn dod i'r tŷ ar ei gyfer. Ond y realiti oedd mai anaml iawn yr oedd hyn yn digwydd ac nid oedd yr ysgol yn dilyn unrhyw beth i fyny. Fe ges i'r argraff fod yr athrawon yn rhy brysur ac nad oedd darparu gwaith ar gyfer fy mab yn flaenoriaeth. Roeddwn yn bryderus iawn nad oedd fy mab yn cael digon o waith a phan fyddai'n cael gwaith roedd hi'n anodd iawn ei symbylu i wneud y gwaith hwnnw. Felly, unwaith eto, fe ffoniais yr AALl yn benodol i siarad â Swyddog F, ond doeddwn i byth yn gallu cael trwodd ato fe. Fe fues yn siarad â chydweithiwr Swyddog F, swyddog G, a chyfeiriais at fy sgwrs flaenorol gyda Swyddog E. Dywedais wrtho fod fy mab yn dal allan o'r ysgol ac nad oedd gwaith yn cael ei osod yn iawn gan yr ysgol. Fe ddywedais wrth Swyddog G fy mod yn hynod bryderus y byddai fy mab yn cael ei wahardd yn barhaol, ei fod i mewn ac allan o'r ysgol yn barhaus, a'i fod yn gorfod ail-addasu i fynd yn ôl i'r ysgol bob tro y byddai hynny'n digwydd. Roedd y ffaith nad oedd yn cael digon o waith yn golygu ei fod hefyd ar ei hôl hi gyda'r gwaith oedd yn cael ei osod, yn wyneb faint o'r ysgol yr oedd wedi'i cholli. Dywedodd Swyddog G wrthyf nad oedd unrhyw gymorth ar gael ac y dylwn fynnu fod fy mab yn cael mynd yn ôl i'r ysgol. Dywedodd hefyd na ddylai'r gwaharddiadau "answyddogol" hyn fod yn digwydd. Roedd yn ymwybodol o'm mab a chyfeiriodd ato fel un oedd ag EBD (Anhwylder Ymddygiad Addysgol).

Dyma'r tro cyntaf i mi glywed y gallai fod fy mab yn dioddef anhwylder cydnabyddedig, a dysgais yn ddiweddarach fod hwn yn cael ei ystyried yn angen arbennig. Dywedais wrth Swyddog G fy mod yn cael trafferth i'w gael yn ôl i'r ysgol, ac nad oedd yn cael mynd yn ôl nes iddynt geisio cymorth gan Swyddog D. Awgrymodd Swyddog G y dylwn ystyried tiwtoriaeth breifat ar gyfer fy mab a chyfeiriodd at diwtoriaid. Yn dilyn hyn, fe drefnais i'm mab gael peth tiwtoriaeth breifat mewn menter fathemateg. Er nad oedd Swyddog G wedi bod yn fawr o gymorth, rwy'n cofio cysuro fy hun gyda'r ffaith fy mod yn gwneud y peth iawn yn gadael i'r Adran Les wybod beth oedd yn digwydd gyda fy mab. Roeddwn mewn cyfyng-gyngor. Roeddwn yn teimlo, drwy gysylltu â'r Adran Les, y byddai'r cymorth oedd ei angen ar fy mab yn cael ei gyflymu pe byddai'r AALl yn clywed gen i yn ogystal â gan yr ysgol. Ychydig y gwyddwn ar y pryd nad oedd yr ysgol yn rhoi'r darlun llawn i'r AALl.

**11.** Fel y digwyddodd hi, dim ond i ychydig o sesiynau'r fenter mathemateg yr aeth fy mab, gan fod y sesiynau ar y penwythnos, pan roedd fy mab eisiau gweld ei ffrindiau. Roedd hefyd yn eithaf drud. Siaradais â'r Seicolegydd Addysg eto. Nid oedd e'n gwybod fod fy mab yn dal allan o'r ysgol, gan ei fod wedi awgrymu i Athro A ac Athro D y byddai'n fwy llesol i'm mab fod yn yr ysgol yn hytrach nag allan ohoni. Dywedodd y Seicolegydd Addysg wrthyf y byddai'n cysylltu ag Athro A.

**12.** Ddiwedd mis Chwefror treuliodd fy mab beth amser yn yr ysgol, ond cafodd ei wahardd yn swyddogol am 5 diwrnod ar 28 Chwefror. Pan aeth yn ôl ym mis Mawrth, dechreuais dderbyn galwadau ffôn yn ddyddiol gan Athro E (roedd wedi cymryd drosodd oddi wrth Athro C). Byddai'n gofyn i mi ddod i'r ysgol i gasglu fy mab a mynd ag ef adref, gan ei fod wedi bod yn aflonyddgar. Erbyn hyn roeddwn wedi chwilio am le, a'i gadw, i'm mab yn yr ysgol arall gan fod Athro C wedi dweud wrthyf am ymchwilio i ysgolion eraill yn ôl ym mis Rhagfyr. Roeddwn wedi hysbysu'r Gwasanaethau Cefnogi Disgyblion yn yr AALl am hyn ac roeddent hwythau wedi ysgrifennu ataf i ddweud fod symud fy mab i ysgol wahanol yn benderfyniad difrifol ac y dylwn geisio cadw fy mab yn yr ysgol. Wedi derbyn y llythyr hwn, ynghyd â'm meddyliau fod symud fy mab i ysgol arall yn ormod o gambl i'w gymryd ac os oedd angen cymorth arbenigol arno yna byddai'r ysgol siŵr o fod ymhellach i lawr y llwybr i gael y cymorth nag y byddai ysgol newydd. A hyn ar ben y ffaith mai'r ysgol oedd lle'r oedd fy mab eisiau bod. Fe wnes y penderfyniad i gadw fy mab yn yr ysgol. Sicrhaodd yr ysgol fi hefyd eu bod yn chwilio am gymorth i fy mab. Yn ystod y cyfnod hwn roeddwn hefyd yn ymlafnio â'r syniad efallai bod angen cymorth arbenigol ar fy mab. Yn fam i bedwar o blant, roeddwn bob amser wedi bod â'r teimlad fod rhyw esboniad arall dros ei ymddygiad. Felly gofynnais i feddyg teulu fy mab iddo gael ei gyfeirio a'i asesu gan seiciatrydd.

**13.** Ar 7 Mawrth 2003 cafodd fy mab ei wahardd yn swyddogol am 15 diwrnod. Er nad oeddwn yn hapus â'r gwaharddiad hwn, ryw'n cofio meddwl fy mod yn teimlo'n fwy esmwyth fy meddwl gyda'r gwaharddiad gan ei fod yn un swyddogol, oedd yn golygu y gallwn droi at y llywodraethwyr er mwyn lleisio fy mhryderon am ei addysg. Roedd hwn yn dir cwbl newydd i mi ac roeddwn yn teimlo'n nerfus iawn. Pan glywodd Athro C fy mod yn bwriadu mynychu cyfarfod Pwyllgor Disgyblu'r llywodraethwyr er mwyn trafod y gwaharddiad pymtheg diwrnod, ffoniodd fi sawl gwaith yn fy ngwaith er mwyn ceisio newid fy meddwl. Dywedodd wrthyf nad oedd angen i mi fod yn bresennol ac y byddai ef yn datrys pethau i mi. Teimlais fod rhaid i mi fynd i wneud fy apêl yn erbyn y gwaharddiad a hefyd i drafod y nifer o waharddiadau answyddogol oedd eisoes wedi digwydd.



Roeddwn eisiau gwneud yn siŵr fod y llywodraethwyr yn ymwybodol o'r gwaharddiadau answyddogol ac roeddwn am gael gwybod beth oedden nhw'n ei feddwl oedd y ffordd orau ymlaen ar gyfer fy mab a'i addysg. Fe es i'r cyfarfod gyda fy mrawd yng nghyfraith ac un sy'n Feistr Tŷ mewn ysgol arall. Yn y cyfarfod hwn y gwelais y pennaeth am y tro cyntaf. Dywedodd yr ysgol y gallai gyfiawnhau gwaharddiad fy mab yn seiliedig ar ei record wael a'i fod dan fygythiad o gael ei wahardd yn barhaol. Pan ofynnais a fyddai efallai'n well gwahardd fy mab yn barhaol yn hytrach na chaniatáu i'r sefyllfa barhau fel ag yr oedd hi, dywedodd y pennaeth mai gwaharddiad parhaol arall oedd y peth olaf oedd ei angen ar Ms Z (o'r AALl). Dywedodd Athro E nad oedd yn credu fod fy mab wedi gwneud dim byd digon drwg i gyfiawnhau gwaharddiad parhaol a theimlai'n hyderus y gallai Swyddog D ddod o hyd i le ar gyfer fy mab mewn PRU ac mai hynny allai fod yr ateb. Cafodd y gwaharddiad ei gadarnhau, ond cefais sicrwydd gan yr ysgol eu bod yn ceisio cymorth gan yr AALl. Gadewais y cyfarfod yn obeithiol y byddai rhywbeth yn cael ei wneud i sicrhau cymorth ar gyfer fy mab yn yr ysgol.

**14.** Pan aeth fy mab yn ôl i'r ysgol ar ôl y gwaharddiad 15 diwrnod, nid oedd unrhyw gymorth ar gael ar ei gyfer. Felly, yn anochel, roedd i mewn ac allan o'r ysgol drwy gydol mis Ebrill. Bob tro y byddai'n mynd yn rhy anodd i Athro E ei reoli, byddai'n fy ffonio i ac yn gofyn i mi ei gasglu o'r ysgol, a byddwn yn gwneud hynny'n fodlon. Wnaeth e ddim croesi fy meddwl i wrthod casglu fy mab gan fy mod bob amser yn credu fod angen i mi gefnogi'r ysgol yn ogystal â'i amddiffyn ef. Ar ddiwrnod olaf y tymor cyn gwyliau'r Pasg ym mis Ebrill 2003 cefais fy ngalw i'r ysgol dair gwaith mewn un diwrnod oherwydd bod Athro E wedi fy ffonio. Roeddwn yn bryderus dros ben ac roedd fy mab ei hun yn y fath gyflwr nes i mi deimlo fod yr amser wedi dod i mi wneud cais iddo gael ei wahardd yn barhaol. Roeddwn wedi cael fy nghynghori mai dyma'r unig ffordd y byddai fy mab yn cael y cymorth yr oedd ei angen. Pendronais yn hir dros y cais hwn, doedd e ddim yn gais hawdd i'w wneud. Roeddwn wedi siarad ag adran Anghenion Arbennig mewn ysgol arall; dywedwyd wrthyf pe byddwn yn gallu cael yr ysgol i wahardd fy mab yn barhaol yna byddai mewn gwirionedd yn dod â "phecyn o arian ar ei gefn", h.y. gan yr AALl. Dywedodd Athro E y byddai'n siarad â'r pennaeth. Ar ddiwedd y dydd ffoniodd Athro E i ddweud nad oedd y pennaeth yn teimlo bod gwahardd fy mab yn barhaol yn opsiwn a'i fod wedi cael syniad da. Roedd yn gwybod am sefydliad o'r enw Ymddiriedolaeth y Fferm, oedd yn berchen ar fferm, lle y gallai pobl ifanc â phroblemau fynd iddo ac roedd yn credu y gallai hyn weithio i'm mab. Cytunais â hyn. Roedd yn ymddangos yn ddewis amgen da i gael ei wahardd yn barhaol ac roeddwn yn meddwl y byddai'r profiad yn helpu ail adeiladu ei hunan barch. Roeddwn yn ymwybodol fod yna anifeiliaid ar y fferm gan ei fod yn lle yr oeddem wedi ymweld ag ef gyda'm mab a'i frawd rai blynyddoedd yn ôl, a gan fod fy mab wrth ei fodd ag anifeiliaid, teimlais y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol arno. Yr unig opsiwn arall fyddai i Fentor B fynd gyda fy mab i'r ysgol, ond erbyn hyn roedd eu perthynas wedi torri i lawr felly nid oedd hynny'n bosibl. Roedd y posibiliadau hefyd yn mynd yn llai ac yn llai, ac er bod manteision clir i'm mab pe byddai'n cael ei wahardd yn barhaol, megis cyllid a chefnogaeth ychwanegol y byddai ganddo hawl i'w derbyn, fel rhiant yr oeddwn yn dal braidd yn anghyfforddus â'r syniad y byddai'n cael ei wahardd yn barhaol ynghyd â'r ffaith nad oedd y pennaeth yn barod i wneud hynny.

**15.** Cyfarfu Athro E, fy mab a minnau â'r rheolwr oedd yn rhedeg yr Ymddiriedolaeth Fferm. Roeddwn dan yr argraff ar y pryd y byddai fy mab yn mynd i'r fferm bob dydd Llun i ddydd Gwener. Ond dysgais mai dim ond am un diwrnod yr wythnos y byddai'n mynd i'r fferm, gyda'r posibilrwydd o ehangu hyn i ddau ddiwrnod yr wythnos. Dywedodd Athro E y dylwn gadw fy mab adref ar y tri diwrnod arall o'r wythnos nes iddynt allu dod o hyd i ateb. Roeddwn yn bryderus, gan nad oeddwn yn gwybod beth i'w wneud â'm mab am y tri diwrnod arall, fwy na'i gloi yn y tŷ, gan ei bod yn fwyfwy anodd i wneud iddo aros adref hyd yn oed os oedd rhywun yn y tŷ gydag ef. Roeddwn hefyd yn anhapus fod fy mab yn cael ei amddifadu o gwmni ei ffrindiau ysgol, y teimlwn oedd yn weithgaredd normal iawn i unrhyw fachgen. Ond i'm mab, roedd hyn yn broblem fwy fyth oherwydd yr anawsterau yr oedd yn eu cael yn yr ysgol. Byddai'n mynychu'r fferm ar rai dyddiau ym mis Mai, aeth i'r ysgol am rai dyddiau eraill ac yna arhosodd gartref am y dyddiau eraill. Ar ddyddiau'r fferm, y trefniant oedd y byddwn i'n ei ollwng yn yr orsaf yn y bore gyda'r bechgyn eraill. Byddai tacsi preifat (wedi'i drefnu gan y fferm) wedyn yn mynd â'r bechgyn i'r fferm. O'r cychwyn cyntaf roeddwn yn teimlo'n anghyffyrddus gyda'r trefniant hwn gan ei fod yn golygu fod fy mab bellach yn y dref a doedd dim modd i mi fod yn siŵr y byddai'n aros am y tacsi. Yn naturiol, doedd fy mab ddim yn croesawu'r syniad ohonof i'n aros am y tacsi gydag ef gan y byddai'n teimlo embaras, felly byddwn fel arfer yn gyrru rownd y gornel a chadw llygad allan o'i olwg ef. Ond golygai hyn y byddwn wedyn yn cyrraedd y gwaith llawer hwyrach nag y dylwn. Byddent yn cael eu gollwng ar y ffordd yn ôl tua 4pm tu allan i'r orsaf. Roedd hyn weithiau'n achosi problemau, gan y byddai'r tacsi weithiau'n dod yn gynnar ac ni fyddai fy mab yn aros amdanaf. Unwaith fe ddaliodd fws adref, oedd yn iawn ynddo'i hun, ond doedd gen i ddim ffordd o wybod beth yr oedd wedi'i wneud gan nad oedd ganddo ffôn symudol. Yn raddol roeddwn yn fwy a mwy anghyfforddus ynglŷn â'r ffaith ei fod yn mynd i'r fferm. Roedd y rheolwr eisoes wedi dweud wrthyf fod yna fechgyn ar y fferm oedd â "phroblemau mwy" na'm mab, h.y. roedd rhai ohonynt heb fod yn byw gyda'u rhieni ar ben y ffaith nad oedden nhw'n mynychu ysgol. Fe ges i'r teimlad fod y fferm yn gweithredu'n unig fel lle i'm mab fynd ar rai dyddiau o'r wythnos ac nid oedd yn dod yn ei flaen yn y ffordd yr oeddwn i wedi gobeithio. Erbyn hyn, roeddwn wedi dechrau dangos fy rhwystredigaeth nad oedd fy mab yn yr ysgol o hyd, fel y dylai fod. Byddwn yn siarad â naill ai'r pennaeth neu Athro E yn aml iawn er mwyn darganfod beth oedd yn digwydd ac o ble roedd y cymorth yn dod. Roedd enw Swyddog D yn cael ei drafod o hyd, a dywedwyd wrthyf mai ef oedd y dyn oedd "â'r ateb ynghylch addysg fy mab".

**16.** Yn ystod un sgwrs gyda'r pennaeth, fe soniodd fod ganddo ffrind oedd wedi bod yn bennaeth mewn ysgol arall ac y gallai ef, o bosibl, dreulio peth amser gyda fy mab yn yr ysgol. Dywedodd y pennaeth y byddai angen iddo gael cyllid ar gyfer y syniad hwn. Ond yn y cyfamser byddai'n trefnu cyfarfod gydag Athro F. Byddai fy mab yn cwrdd ag Athro F yn y boreau'n unig. Byddai'n rhaid i mi gasglu fy mab rhwng 11.30 a 12.00 a byddwn naill ai'n mynd ag ef gartref neu'n mynd ag ef i'r gwaith gyda mi. Roedd yn ymddangos i mi nad oedd Athro F yn ymwybodol o faint o amser yr oedd fy mab wedi'i dreulio allan o'r ysgol. Roeddwn yn ei ystyried yn gymorth gwerthfawr. Credaf pe byddai cymorth o'r fath wedi ei drefnu ar gyfer fy mab yn llawer cynt y byddai wedi elwa'n fawr o gefnogaeth felly. Erbyn i'm mab gwrdd ag Athro F, roedd wedi colli pob diddordeb yn yr ysgol, roedd wedi colli'r archwaeth i ddysgu a fu ganddo unwaith. Erbyn hyn, roedd mor isel a heb symbyliad nes ei bod yn anodd i ni gael effaith arno. Ond er hynny, roeddwn yn teimlo fod Athro F yn ffordd ymlaen hyd yn oed mor hwyr â hyn.

**17.** Yn ystod y cyfnod hwn roeddwn hefyd wedi bod yn mynd ar ôl fy angen i gael fy mab wedi'i asesu. Aethom i weld seiciatrydd yn y ganolfan deulu. Doedd fy mab ddim eisiau mynd ac fe gymerodd hi lawer o amser i mi ei berswadio i ddod gyda mi. Gofynnwyd i mi lenwi amryw o holiaduron. Roedd rhaid i'r ysgol lenwi holiadur hefyd; fe es i â'r holiadur i'r ysgol yn bersonol, a'i gasglu wedyn. Pan es i'n ôl i weld y Seiciatrydd, dywedodd wrthyf ei bod yn teimlo fod fy mab yn dioddef o ADHD (Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio). Roedd wedi cyrraedd y diagnosis hwn drwy edrych ar ei anallu i ganolbwyntio ac nid dim ond ei ymddygiad. Rhoddwyd nifer o lyfrynnau i mi ar ADHD. Darllenais y llyfrynnau a gwneud ychydig mwy o ymchwil ar y We. Teimlais fod y diagnosis hwn yn gwneud synnwyr a'i fod yn disgrifio'r problemau yr oedd fy mab yn eu cael.

**18.** Roeddwn yn teimlo'n ddig iawn yn dilyn y diagnosis hwn gan fod Mentor B wedi awgrymu i'r ysgol fisoedd ynghynt y dylai gael ei asesu, ond roedd yr athro SENCO ac Athro A yn teimlo fod Mentor B yn gorymateb. Roeddwn hefyd yn teimlo'n euog gan fy mod innau wedi bod yn rhan o baratoi fy mab i fethu bob tro y byddai'n mynd yn ôl i'r ysgol yn dilyn gwaharddiad. Yn sydyn roedd hi'n gwneud synnwyr pam yr oedd yn bod mor aflonyddgar, yn amlwg doedd e ddim yn gallu canolbwyntio'n ddigon hir ar dasg, a byddai hynny'n arwain ato'n mynd yn aflonydd ac yn ceisio sylw. Roedd wastad wedi bod yn waith caled ac yn mynd a mynd o hyd. Roeddwn bob amser wedi gorfod dod o hyd i ffordd o'i gadw'n brysur ac yn sydyn fe ddeallais pam fod yr ysgol mor anodd iddo. Fe drefnais i weld y pennaeth i ddweud wrtho am y diagnosis ac i roi'r llyfrynnau oedd gen i iddo. Gwnaeth y pennaeth nodiadau am hyn, wnaeth e ddim gofyn am brawf o'r diagnosis; dim ond derbyn yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud. Dywedais wrtho hefyd fy mod yn bryderus iawn am y ffaith nad oedd neb o'i staff wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i hyn ac fy mod yn anhapus am faint o amser oedd wedi cael ei golli.

**19.** Erbyn hyn roedd fy mab yn mynd i'r fferm am ddau ddiwrnod, ac weithiau am dri, ac yn treulio dau fore'r wythnos gydag Athro F. Mewn rhai ffyrdd, roedd hyn fel petai'n gweithio, ond mewn gwirionedd y cyfan yr oedd y fferm yn ei wneud oedd cynnig lle iddo fynd yn lle bod adref. Roedd yn fachgen oedd angen bod mewn amgylchedd ysgol. Roedd wedi cychwyn yn yr ysgol yn uchelgeisiol iawn am ei ddyfodol. Ond erbyn hyn roedd yr awydd i ddysgu oedd ganddo ar ddechrau ei amser yn yr ysgol yn diflannu'n gyflym. Roedd fel petai ei ysbryd wedi'i dorri. Roedd ei hunan-dyb mor isel; roedd yn anodd codi ei galon. Roedd wastad wedi bod yn fachgen hapus, llawn hwyl, yn mwynhau tynnu coes a difyrru ei ffrindiau.

**20.** Daeth yr amser gwaethaf un noson, ar ôl iddo ddod adref yn ôl y gofyn, ond yna roedd wedi trefnu bod bachgen hŷn o'r ysgol yn dod i'r tŷ am hanner nos, a gyda'i gilydd aethon nhw â'm car. Fe ddes i'n ymwybodol o hyn pan gurodd yr heddlu'r drws o gwmpas tri o'r gloch y bore. Ar y dechrau, roeddwn yn meddwl fod y blismones wedi gwneud camgymeriad gan fy mod wedi gweld fy mab yn dod i mewn. Ond doeddwn i ddim yn sylweddoli ei fod wedi sleifio allan. Ar ôl y digwyddiad hwn, penderfynais fod rhaid i'm mab fynd i ffwrdd oddi wrth y dylanwadau negyddol oedd yn effeithio arno erbyn hyn. Penderfynodd fy ngŵr a minnau y dylai fynd dramor am yr haf i aros gyda theulu. Roedd fy mab wedi ymweld â'r wlad dramor cyn hyn ac roedd yn croesawu'r cyfle i fynd eto. Roeddwn innau'n croesawu'r syniad hefyd, gan fy mod i hefyd wedi cyrraedd pwynt lle nad oeddwn i'n gallu cymryd rhagor. Roedd hi wedi bod mor anodd i ymdopi â'i sefyllfa, yr ysgol, fy ngwaith a'r ffaith fod gen i dri o blant eraill – dau ohonyn nhw'n eithaf ifanc. Roeddwn i'n ymwybodol y byddai'r penderfyniad hwn mewn gwirionedd yn difetha'r trefniadau oedd gan y pennaeth ac Athro F. Roeddwn yn teimlo mai diferyn yn y môr oedd dau fore'r wythnos ac y byddai'n elwa mwy o newid llwyr yn ei ffordd o fyw.

**21.** Ar 13 Mehefin 2003, dywedais wrth y pennaeth y byddai fy mab yn mynd i'r wlad dramor ar y Sul canlynol. Roedd y pennaeth fel petai'n croesawu fy nghynlluniau gan eu bod, mewn gwirionedd, yn ei ryddhau o'i gyfrifoldeb tuag at fy mab. Erbyn hyn, roeddwn i'n llai pryderus am ei addysg ac yn poeni mwy am godi ei hunan barch, ac roeddwn yn gwybod y byddai'n derbyn sylw o'r math iawn ynghyd â gofal cariadus yn ogystal â threulio amser gwerthfawr gyda'i dad. Bu'r pennaeth a minnau'n trafod y diagnosis o ADHD. Dywedais wrtho na fyddai fy mab yn cael cymryd y cyffur Ritalin nes iddo ddod yn ôl ddiwedd mis Awst ac y byddem yn siarad eto ddechrau mis Medi pryd y byddwn yn disgwyl clywed bod y cymorth angenrheidiol yn ei le ar gyfer fy mab o ystyried y diagnosis.

**22.** Ar 15 Mehefin aeth fy mab i'r wlad dramor gyda'i dad. Yn ystod ei gyfnod i ffwrdd, derbyniais ei adroddiad Blwyddyn 8. Nododd yr athrawon yn gyffredinol ei bod yn anodd rhoi adroddiad teg iddo gan nad oedd wedi mynychu digon o wersi. Ym mis Gorffennaf, cefais wybod y byddai asesiad statudol i'w asesu am Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei weithredu. Teimlwn ryddhad o glywed hyn, gan mai dyna oedd Mentor B wedi gofyn amdano bron flwyddyn ynghynt. Yn ystod y cyfnod y bu fy mab yn y wlad dramor bues i'n siarad ag ef ar y ffôn ac yn ei ebostio sawl gwaith. Roedd yn edrych ymlaen at ei ben-blwydd ac yn awyddus i mi anfon llyfr newydd Harry Potter ato ar ei ben-blwydd (roedd eisoes wedi gorffen y llyfr blaenorol). Anfonais y llyfr newydd ynghyd â gwahanol anrhegion a llythyrau gan ei gefndryd a'i gyfnitherod. Roedd fy mab wedi gallu cadw mewn cysylltiad â rhai o'i ffrindiau ysgol drwy gyfrwng y rhyngrwyd. Roedd hefyd yn nofio bob dydd ac yn chwarae pêl-droed. Cyn i'm mab fynd i'r wlad dramor roedd wedi dweud ei fod eisiau colli pwysau a chael lliw haul. Yn wreiddiol roeddem wedi cynllunio iddo aros yn y wlad dramor drwy gydol gwyliau'r haf, ond daeth hyn yn anodd oherwydd prinder arian. Felly daeth yn ôl adref ddechrau mis Awst. Pan es i gwrdd â'm mab yn y maes awyr, roedd ef wedi tyfu cymaint, ac roedd e'n bendant wedi cyrraedd ei nod o edrych yn wirioneddol dda. Roedd yn bendant yn teimlo'n llawer gwell amdano'i hun; doedd e ddim yn gallu aros i weld ei ffrindiau.

**23.** Ym mis Medi 2003 cysylltais â'r pennaeth i ddweud wrtho fod fy mab yn ôl ac roeddwn am gael gwybod beth oedd y cynlluniau iddo fynd yn ôl i'r ysgol. Awgrymodd y pennaeth y dylai gychwyn ym Mlwyddyn 9 a mynd ymlaen o'r fan honno. Roeddwn i wedi fy syfrdanu fod y pennaeth yn dal yn ceisio trefnu help ar gyfer fy mab yn ôl bob tebyg. Dywedodd wrthyf fod yr AALl wedi cynnig lle iddo mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, ar yr amod y byddai'r ysgol yn cymryd plentyn o'r Uned. Roedd y pennaeth wedi gwrthod hyn. Roeddwn yn teimlo syndod nad oeddwn wedi bod yn rhan o'r broses hon ac nad oedd neb wedi ymgynghori â mi mewn unrhyw ffordd am y penderfyniad. Erbyn hyn, roedd y Datganiad o Asesiad ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yn mynd yn ei flaen, gyda gwybodaeth yn cael ei chasglu gan bawb oedd yn ymwneud â'm mab. Byddai'r datganiad hwn yn ei hanfod yn penderfynu pa help fyddai ei angen ar fy mab. Fe dynnais sylw'r pennaeth hefyd at y ffaith fod Ritalin wedi cael ei ragnodi ar gyfer fy mab a'i fod wedi cychwyn ar y cwrs cyntaf o fewn dyddiau i ddod yn ôl o'r wlad dramor. Dywedais wrth y pennaeth na fyddai angen i'm mab ddod ag unrhyw feddyginiaeth i mewn i'r ysgol o gwbwl, ac y byddwn i'n goruchwylio fy mab yn cymryd ei feddyginiaeth bob bore, a hynny gyda chytundeb fy mab.

**24.** Aeth fy mab i mewn i Flwyddyn 9 ddechrau mis Medi, yn ei ddosbarth arferol, ond heb gymorth arbenigol. Roeddwn yn bryderus iawn amdano'n mynd yn ôl gan fy mod yn teimlo fod llawer wedi cael ei gyflawni gan fy mab a'i deulu dros yr haf ac mewn gwirionedd yr unig beth oedd ei angen yn awr oedd adeiladu ar y cynnydd hwnnw yn yr ysgol. Ond heb unrhyw beth wedi ei drefnu ar gyfer fy mab roeddwn yn teimlo ei fod, unwaith eto, yn cael ei osod i fethu a bod yr holl bwysau arno ef. Er cymaint oedd y demtasiwn i mi wrthod anfon fy mab i'r ysgol nes bod yr help wedi'i drefnu, ar ôl troi a throsi'r syniad yn fy mhen a'i drafod o fewn y teulu, teimlais nad oeddwn eisiau iddo gychwyn yn wael; roedd yntau eisiau cychwyn Blwyddyn 9 ar yr un diwrnod â'i gyfoedion. Aeth fy mab yn ôl i'r ysgol ar 4 Medi 2003 dwi'n credu. Erbyn y diwrnod wedyn, daeth galwad ffôn gan Athro E yn gofyn i mi ei gadw gartref. Trefnais i gwrdd â'r athro hwnnw ar 8 Medi.

**25.** Cwrddais ag Athro E, Athro G, yr athro AAA ac arbenigwr ADHD o'r NCH. Dywedodd Athro E wrthyf am gadw fy mab gartref nes bod cymorth yn cael ei ganfod. Dywedais wrtho nad oeddwn yn fodlon gwneud hyn oni bai ei fod yn swyddogol. Cytunodd Athro E â hyn a dywedodd y byddai fy mab yn cael ei wahardd am 4 diwrnod (tan ddydd Gwener). Roeddwn wedi fy syfrdanu nad oedd yr wybodaeth yr oeddwn wedi ei rhoi i'r pennaeth am ADHD wedi cael ei rhannu. Mynegodd Athro G ei hamheuon am y diagnosis a bu'n rhaid i'r arbenigwr esbonio fod yna wahanol lefelau o ADHD. Cafodd fy mab ei wahardd am bedwar diwrnod, yn cychwyn ar 9 Medi. Dyma ni, dros chwe mis yn ddiweddarach o'r amser pan ddywedwyd wrthyf fod "cymorth brys" yn cael ei geisio gan Swyddog D. Dyma lle'r oedd Athro E yn dal i siarad am yr un dyn. Roeddwn mor grac gyda fy hun am fod mor hygoelus ac am dderbyn popeth yr oedd yr ysgol wedi dweud wrthyf. Roedd yn gysur mawr i mi i wybod fy mod yn cydweithredu â phawb yn yr ysgol. Sylweddolais yn sydyn fy mod mewn gwirionedd wedi bod yn cefnogi'r ysgol pan ddylwn i fod wedi bod yn cefnogi fy mab. Roeddwn wir yn teimlo fy mod wedi gadael fy mab ar y clwt. Ar 9 Medi, ffoniais Swyddog D yn yr AALl. Hwn oedd y dyn yr oedd Athro C, Athro E a'r pennaeth - pob un ohonynt - wedi sôn amdano sawl gwaith dros y misoedd diwethaf. Dywedais wrth Swyddog D am sefyllfa fy mab. Dywedais wrtho fod pobl wedi dweud wrthyf mai ef oedd "y dyn oedd â'r ateb i broblem addysg fy mab". Gofynnais iddo am yr Unedau Cyfeirio Disgyblion. Dywedodd Swyddog D ei fod yn synnu eu bod wedi dweud hynny wrthyf gan ddweud ei fod fel arfer yn delio â disgyblion oedd wedi cael eu gwahardd yn barhaol. Ar ben hyn, dywedodd mai dim ond ar gyfer disgyblion oedd wedi cael eu gwahardd yn barhaol yr oedd llefydd ar gael mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Yn ogystal, nid oedd Swyddog D wedi cael gwybod am nifer y dyddiau yr oedd fy mab wedi bod allan o'r ysgol ac roedd yn wirioneddol synnu pan glywodd faint o ddyddiau yr oedd wedi bod allan o'r ysgol. Roedd ei gofnod am fy mab yn dangos mai dim ond am 22 diwrnod yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol y cafodd fy mab ei wahardd. Doedd ganddo ddim gwybodaeth na chofnod o'r dyddiau pan oedd yr ysgol wedi gofyn i mi gadw fy mab gartref. Doedd ganddo ddim syniad chwaith fod fy mab wedi cael diagnosis o ADHD. Roedd hi'n amlwg nad oedd y cyswllt oddi wrth yr ysgol gyda Swyddog D wedi bod yn gywir. Credaf fod yr ysgol wedi galw am help gan ddweud fod fy mab yn fachgen drwg ac aflonyddgar, ond nid oedd yr ysgol wedi rhoi gwybod i Swyddog D ei bod mewn gwirionedd yn gwaethygu'r broblem drwy ei gadw allan o'r ysgol. Yn ffodus roedd Swyddog D yn gallu gweld bod angen gwneud rhywbeth ar frys. Roedd yn deall fod angen i mi gael fy mab yn ôl i'r ysgol a bod angen rhyw fath o gymorth arno yn yr ysgol. Dywedodd wrthyf fod ganddo grwpiau o gynorthwywyr dosbarth oedd yn dod i mewn i ddosbarthiadau i weithio ochr yn ochr â disgyblion ac y gellid darparu hyn ar gyfer fy mab. Roeddwn mor falch fod Swyddog D wedi dechrau mynd i'r afael â phroblemau fy mab, ond roeddwn yn ddig iawn gyda'r ysgol ac fe es i weld y pennaeth. Gwnaeth lawer o esgusodion am beidio cael help, yn ymwneud ag arian, adnoddau ac ati.

**26.** Ar ôl fy sgwrs gyda Swyddog D, dechreuodd pethau symud yn sydyn ac yn gyflym. Erbyn 11 Medi, roedd Swyddog D yn gallu cadarnhau y byddai cynorthwy-ydd dosbarth yn cael ei glustnodi yn yr ysgol ar gyfer fy mab am bedwar diwrnod yr wythnos am bump neu chwe wythnos, tra bod yr asesiad statudol yn cael ei gwblhau. Roedd hyn yn rhyddhad enfawr i mi; roeddwn yn teimlo o'r diwedd fod y cymorth iawn wedi cael ei ganfod ar gyfer fy mab i'w alluogi i gael cyfle i dderbyn yr addysg yr oedd cymaint o'i hangen arno. Heb os, digwyddodd y cymorth anobeithiol gafodd ei drefnu'n sydyn oherwydd fy mod i wedi cysylltu â Swyddog D a thynnu ei sylw at faint y broblem.

**27.** Ddydd Gwener yr wythnos honno, fe ffoniais yr ysgol i holi pa gymorth oedd wedi'i drefnu ar gyfer dychweliad fy mab i'r ysgol ddydd Llun. Dywedwyd wrthyf nad oedd unrhyw gymorth wedi'i drefnu ac y byddai gwaharddiad fy mab yn cael ei ymestyn. Ffoniais ysgrifennydd y llywodraethwyr i wneud cynrychiolaethau am waharddiad fy mab i'r Pwyllgor Disgyblu. Dywedodd ysgrifennydd y llywodraethwyr wrthyf am y rheol nad oedd gan riant hawl i wneud cynrychiolaethau os oedd y gwaharddiad am lai na phum niwrnod. Dim ond am bedwar diwrnod yr oedd fy mab wedi ei wahardd yn swyddogol. Roeddwn yn teimlo fod hon yn ffordd gyfrwys o'm rhwystro rhag gwneud cynrychiolaethau. Roeddwn hefyd yn pryderu y byddai hyn yn gychwyn ar gyfnod hir arall o waharddiadau answyddogol. Fe es i'r ysgol a hysbysu'r pennaeth os oedd fy mab i fod allan o'r ysgol am fwy na'r pedwar diwrnod oedd eisoes wedi'u pennu yna fy mod am i hynny fod yn swyddogol ac yn ysgrifenedig. Dyma'r tro cyntaf yr oeddwn wedi mynnu bod y gwaharddiadau'n cael eu gwneud yn swyddogol drwy eu gwneud yn ysgrifenedig. Teimlais fy mod yn gallu hawlio fel hyn gan fy mod erbyn hyn yn hyderus fy mod wedi llwyddo i ddod o hyd i'r cymorth iawn ar gyfer fy mab. Sylweddolais nad oedd rhaid i mi fod mor ostyngedig ac y gallwn yn awr fod yn fwy pendant a hyderus. Yn y pen draw, fe dderbyniais lythyr yn cadarnhau'r gwaharddiad, ond roedd cyfnod y gwaharddiad yn anghywir. Roedd rhaid i mi wneud cais am lythyr wedi'i gywiro, a dderbyniais yn ddiweddarach. Cadarnhaodd y camgymeriad hwn fy amheuaeth fod y pennaeth yn bod yn fwriadol gyfrwys er mwyn amharu ar fy nghais i gael cwrdd â'r llywodraethwyr.

**28.** Unwaith y derbyniais y llythyr wedi'i gywiro, fe gysylltais ag ysgrifennydd y llywodraethwyr a gwneud cais am gyfarfod. Dywedodd hi wrthyf nad oedd gorfodaeth ar yr ysgol i alw cyfarfod yn syth bin mewn achosion o waharddiadau tymor byr fel hyn. Rwy'n siŵr ei bod wedi dweud wrthyf fod gan yr ysgol 55 diwrnod o ddyddiad y gwaharddiad i alw'r cyfarfod. Gofynnais iddi pam nad oedd hi wedi dweud hyn wrthyf yn ystod ein sgwrs flaenorol. Doedd hi ddim yn gallu ateb fy nghwestiwn. Roeddwn yn cael hyn yn rhwystredig iawn a theimlais yn gryf fod y pennaeth yn fwriadol yn dal yn ôl er mwyn llesteirio fy nghais, yn hytrach na defnyddio'r cyfle i gwrdd â'r llywodraethwyr fel dull o edrych ar addysg fy mab. Roeddwn yn teimlo mor rhwystredig. Dyma ni, bron flwyddyn yn ddiweddarach, ac yn swyddogol erbyn hyn, gyda fy mab yn dal allan o'r ysgol a heb dderbyn yr help na'r addysg yr oedd cymaint o'u hangen arno. Roedd yn gyfnod mor ofnadwy. Doedd yr ysgol ddim yn fodlon gadael i'm mab fynd yn ôl oni bai bod cymorth arbenigol yn ei le. Roeddwn i'n grac iawn ac roedd fy mab wedi ei ddrysu'n llwyr gan yr holl beth. Yr unig lygedyn o obaith yr oeddwn yn cydio'n dynn amdano oedd y ffaith fod Swyddog D yn yr AALl erbyn hyn yn gweithio ar yr achos.

**29.** Erbyn hyn, roeddwn yn benderfynol o geisio cyngor cyfreithiol am gyfnod fy mab yn yr ysgol. Bues yn siarad yn hir gyda chyfreithiwr a threfnais i'w weld ar 9 Hydref 2003 – (doedd e ddim yn gallu fy ngweld i hyd y dyddiad hwnnw). Fe ysgrifennais lythyrau hefyd ar 16 ac 17 Medi 2003 at Swyddog F yn yr AALl ac at Gadeirydd llywodraethwyr yr ysgol, yn nodi fy mhryderon am y ffordd yr oedd yr Ysgol wedi methu cwrdd ag anghenion addysgol fy mab. Fe es â llythyr Cadeirydd llywodraethwyr yr ysgol a'i ddanfon â llaw a chasglodd Swyddog G lythyr Swyddog F o'm swyddfa. Ches i erioed ateb i'r naill lythyr na'r llall.

**30.** Ar 18 Medi 2003, mynychodd fy mab a minnau gyfarfod yn yr ysgol. Yn y cyfarfod roedd Athro E, Ms X (oedd yn rhedeg yr Uned y byddai'r cynorthwy-ydd dosbarth yn dod ohoni), Mentor A (y cynorthwy-ydd dosbarth) a chynghorydd (oedd yn honni fod fy mab wedi ei gweld hi'n gynharach yn y flwyddyn, ond mewn gwirionedd nid oedd wedi ei gweld gan ei fod wedi ei wahardd yn answyddogol ar y pryd). Gofynnwyd i'm mab ymuno â'r cyfarfod ar y diwedd. Trefnwyd y byddai Mentor A ym mhob un o ddosbarthiadau fy mab, er na fyddai ynghlwm wrth fy mab. Pe byddai problemau'n codi, byddai Mentor A yn mynd â'm mab o'r dosbarth ac yn mynd ag ef i weithio i'r llyfrgell. Doedd Mentor A ddim yn gallu bod yn yr ysgol ar ddyddiau Mercher, felly doedd fy mab ddim yn gallu mynd chwaith. Roedd rhaid iddi orffen am 3pm hefyd, oedd yn golygu fod rhaid i'm mab orffen bryd hynny hefyd. Felly cytunais i'w gasglu am 3pm ar y dyddiau y byddai yn yr ysgol. Roedd fy mab i fod gychwyn yn ôl yn yr ysgol ar y dydd Gwener, 19 Medi 2003. Aeth fy mab i'r ysgol ar y dydd Gwener, 19 Medi, yn unol â'r trefniadau. Roeddwn yn teimlo'n nerfus drosto, yn gobeithio'n fawr iawn y byddai'n elwa yn sgil y math hwn o gymorth. Dyma fachgen oedd wedi methu cwblhau diwrnod cyfan yn yr ysgol heb i mi gael galwad ffôn. Roedd yn edrych ymlaen at setlo'n ôl i fywyd ysgol "normal". Roedd yn gwybod mai ar ei gyfer ef yn benodol yr oedd y cymorth hwn; roedd wedi bod i ffwrdd i wlad dramor oedd wedi gwneud iddo deimlo'n well amdano'i hun. Roedd hefyd yn ymwybodol y byddai'r feddyginiaeth yr oedd yn ei chymryd hefyd yn ei helpu i ganolbwyntio'n well yn y dosbarth, felly roedd yn obeithiol y byddai'n cael amser gwell yn yr ysgol. Ar ddiwedd y diwrnod cyntaf, roedd Mentor A wrth ei bodd gydag ef. Roedd fy mab yn gwenu fel giât; roedd yn gwybod ei fod wedi bod yn yr ysgol am ddiwrnod cyfan heb i neb ofyn iddo am adael. Dywedodd Mentor A wrthyf ei bod yn falch iawn ohono. Roedd fy mab yn ymateb yn dda i unrhyw ganmoliaeth, ac roedd yn falch ohono'i hun. Roedd hon yn garreg filltir bwysig.

**31.** Yr wythnos ganlynol, aeth fy mab i'r ysgol bob dydd ar wahân i'r dydd Mercher, yn unol â'r trefniadau. Fe sylwais drwy'r wythnos fod yna newid hyfryd ynddo, roedd yn bendant yn ymateb i fod yn ôl yn yr ysgol. Wrth i bob dydd fynd heibio, byddai'n dweud, "Dwi wedi llwyddo Mam, dwi wedi gwneud diwrnod cyfan arall". Yn raddol, roeddwn i'n dechrau arfer â pheidio cael unrhyw alwadau ffôn yn y gwaith. Roeddwn yn gallu aros wrth fy nesg am gyfnodau "normal". Ar y dydd Llun a'r dydd Mawrth yr wythnos honno, bues yn ymlid Athro E a Swyddog F i ddatrys ble byddai fy mab yn mynd ar ddyddiau Mercher. Er fy mod wedi cytuno y gallai aros adref ar y dydd Mercher cyntaf, roeddwn yn gwbl glir ynghylch y ffaith na fyddwn yn cytuno ar unrhyw ddyddiau eraill. Roedd hwn yn waharddiad o ryw fath, er nad oedd unrhyw beth yn ysgrifenedig. Sylweddolais mai fel hyn y dylwn fod wedi ymddwyn fisoedd ynghynt. Roeddwn yn teimlo mor euog am y ffordd yr oeddwn wedi gadael fy mab i lawr wrth ganiatáu i'r pennaeth a'i staff ei osod i'r naill ochr fel yr oeddent wedi bod yn ei wneud. Roeddwn mor grac â fi fy hun am adael i fy hun gael fy hudo i ymddiried yn y bobl hyn.

Ar y dydd Llun, y dydd Mawrth a'r dydd Iau yr wythnos honno, daeth Mentor A allan gyda fy mab ar ddiwedd y dydd a dweud wrthyf gystal yr oedd fy mab wedi'i wneud. Roedd fy mab yn ymateb yn dda ac rwy'n credu fod ei chanmoliaeth yn ddiffuant. Roedd hyn yn gyflawniad mawr i'm mab.

**32.** Ddydd Gwener, 26 Medi, daeth Athro E gyda Mentor A a'm mab allan i gwrdd â mi. Dywedodd Athro E fod fy mab wedi bod yn rhan o "ddigwyddiad bach" amser cinio a bod gwrthdaro gyda thri bachgen wedi arwain ato'n eu taro. Gwadodd fy mab hyn a dywedodd ei fod wedi taro un bachgen am eu bod yn amharu arno. Roeddwn wedi fy mrawychu a'm mhoeni, ond dywedodd Athro E wrthyf am beidio pryderu a bod y mater wedi cael ei ddatrys ac i ddod â'm mab i'r ysgol ddydd Llun fel arfer. Roedd fy mab yn anniddig dros y penwythnos, treuliodd lawer o amser gyda ni fel teulu, yn hytrach na bod eisiau bod gyda'i ffrindiau. Aethom i gyd i'r UCI, buodd yn chwarae ar y peiriannau gyda'i chwiorydd.

**33.** Am 8am fore Llun, 29 Medi 2003, cefais alwad ffôn gan Athro E yn dweud wrthyf am beidio dod â'm mab i mewn gan fod y pennaeth eisiau cael cyfarfod. Roeddwn yn synnu, gan fy mod wedi cael ar ddeall fod y mater wedi'i ddatrys ac mai rhyw "ddigwyddiad bach" oedd e. Arhosodd fy mab adref, ac yna am 10.30, ffoniodd y pennaeth yn dweud ei fod yn flin, ond "digon yw digon" a bod "gormod o oriau gwaith wedi cael eu treulio ar fy mab," a'i fod yn mynd i'w wahardd yn barhaol. Roeddwn wedi fy syfrdanu, gan fod hyn wedi dod yn gwbl annisgwyl. Ers i'r cymorth arbenigol gael ei drefnu, doeddwn i ddim hyd yn oed wedi ystyried fod fy mab mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol. Doeddwn i ddim wedi cael fy ngwahodd i'r cyfarfod, ond roeddwn yn difaru peidio â mynd i'r ysgol pan ddaeth yr alwad ffôn gyntaf. Gofynnais beth oedd wedi sbarduno'r gwaharddiad parhaol. Dywedodd wrthyf mai'r digwyddiad gyda'r taro ddydd Gwener, ynghyd â rhai digwyddiadau eraill, oedd yn honedig wedi digwydd yn ystod yr wythnos. Doeddwn i ddim wedi cael clywed am unrhyw ddigwyddiadau eraill yr wythnos honno ac roeddwn wedi cael clywed fod fy mab yn gwneud yn dda. Fe geisiais ffonio Swyddog F, Swyddog D a hyd yn oed Ms Z ond doedd neb ar gael. Roeddwn yn ffieiddio nad oedd anghenion fy mab wedi cael eu hystyried. Teimlwn fod y pennaeth wedi bod yn ddi-hid wrth wneud ei benderfyniad. Pam oedd rhaid delio mor llym gyda fy mab ac yntau wedi dioddef eisoes drwy fod allan o'r ysgol am gyfnod mor hir, a hynny yn ei dro wedi cyfrannu tuag at ei ymddygiad yn gwaethygu? Roedd fel petai nad oedd y pennaeth am i'r gefnogaeth weithio ar gyfer fy mab. Roedd fy mab yn siomedig dros ben; fel holodd beth oedd pwynt y cyfan yr oedd wedi'i gyflawni yn ystod yr wythnos flaenorol. Esboniais innau efallai bod y gwaharddiad er gwell ac efallai bod yr amser wedi dod iddo roi ei gyfnod yn yr ysgol y tu cefn iddo ac edrych ymlaen at amser hapusach mewn ysgol wahanol. Er nad oedd hyn yn fy argyhoeddi i, roeddwn yn teimlo fod rhaid i mi wneud i'r gwaharddiad parhaol ymddangos yn rhywbeth cadarnhaol yn hytrach nag yn beth negyddol i'm mab. Roeddwn yn ymwybodol fod y gwaharddiad yn rhwygo'n ddarnau'r cymorth gwerthfawr yr oedd Swyddog D wedi'i drefnu ac y byddai fy mab yn awr allan o'r ysgol nes bod ysgol arall yn cael ei threfnu ar ei gyfer. Roeddwn wedi dod i'r casgliad y bore hwnnw y byddai'n rhaid i mi roi'r gorau i'm gwaith er mwyn ymdopi â'r sefyllfa hon. Doeddwn i ddim yn gallu parhau gyda phethau fel roedden nhw, felly roedd rhaid i rywbeth fynd. Roeddwn yn gwybod y byddai hyn yn ein llorio'n ariannol, ond teimlwn fod rhaid i mi wneud y penderfyniad hwn er mwyn rhoi fy amser yn llwyr i gael fy mab i mewn i ysgol wahanol ac i'w helpu gyda'r newid hwnnw.

**34.** Aeth fy mab allan tua 3pm er mwyn gweld ei ffrindiau'n dod allan o'r ysgol. Erbyn 4.10pm roedd fy mab wedi cael ei ladd mewn damwain. Wnes i ddim derbyn unrhyw beth yn ysgrifenedig i gadarnhau ei fod wedi cael ei wahardd yn barhaol.

**35.** Yn dilyn gwaharddiad parhaol fy mab o'r ysgol yn y bore, a'i farwolaeth yn y prynhawn, teimlais dan orfodaeth i barhau i gwestiynu penderfyniad y pennaeth i'w wahardd. Teimlwn os oedd pennaeth wedi gwneud penderfyniad mor bwysig, y byddai'n hollol naturiol yn dymuno amddiffyn ei benderfyniad. Roeddwn wedi bwriadu cwestiynu dulliau'r ysgol cyn marwolaeth fy mab; doeddwn i ddim yn gallu gweld unrhyw reswm dros beidio â pharhau gyda fy mwriad. Dros y dyddiau nesaf, gofynnais i'r cyfreithiwr ail-drefnu'r cyfarfod oedd i fod i gael ei gynnal ar 9 Hydref er mwyn ei gynnal yn gynharach. Fe gwrddais ag ef ar 2 Hydref. Roeddwn yn ymwybodol fod yna amserlen dynn ar gyfer gwneud cais am gyfarfod gyda'r llywodraethwyr yn dilyn gwaharddiad parhaol. Roeddwn am i'r cyfreithiwr drefnu'r cyfarfod ar fy rhan. Yn ystod yr ychydig ddyddiau hyn, roedd gen i awydd cryf hefyd i roi wyneb i enw Swyddog D. Daeth hyn yn anodd iawn, gan ei fod eisiau "gwirio pethau gyda'r adran Gyfreithiol gyntaf". Doeddwn i ddim yn gwerthfawrogi ei sylwadau felly diflannodd fy awydd yn fuan iawn. Ymhen hir a hwyr daeth i'r amlwg nad oedd gan yr ysgol na'r llywodraethwyr unrhyw fwriad o alw'r cyfarfod er mwyn trafod y gwaharddiad tymor byr ar ddechrau mis Medi na'r gwaharddiad parhaol. Dechreuais ohebu'n aml â'r ysgol, y llywodraethwyr a'r AALl. Yn fuan iawn, fe ges i'r teimlad eu bod i gyd eisiau cuddio y tu ôl i farwolaeth fy mab. Fe es â'm hachos at y Cynulliad Cenedlaethol. Gofynnais iddynt ystyried a oedd gen i hawl i gael y cyfarfod. Penderfyniad y Cynulliad oedd y dylai'r cyfarfod gael ei gynnal. Roedd y penderfyniad hwn yn rhyddhad mawr i mi.

**36.** Credaf fod y gwahanol aelodau staff yn yr ysgol a'r AALl yn esgeulus yn eu trafodaethau gyda fy mab a minnau. Dylai anghenion fy mab fod wedi cael eu hadnabod yn llawer cynt. Credaf hefyd fod y gwaharddiadau gafodd eu gosod ar fy mab wedi cyfrannu'n uniongyrchol tuag at y gwaethygiad yn ei ymddygiad a'i agwedd tuag at yr ysgol. Dioddefodd fy nheulu'n fawr iawn oherwydd y gwaharddiadau. Fe wnaethom ein gorau i ymdopi â'r sefyllfa, ac roedd hi'n anodd iawn ac yn straenus dros ben. Ond roeddem yn benderfynol i helpu fy mab drwy gyfnod anodd iawn yn ei fywyd. Dyma un o'r rhesymau pam y teimlais dan orfodaeth i ddwyn y sefyllfa i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Comisiynydd Plant. Teimlais ei bod yn ddyletswydd arnaf fel rhiant i rannu fy mhrofiadau er mwyn ceisio sicrhau na fyddai unrhyw rieni a phlant eraill yn wynebu sefyllfa debyg. Y rheswm arall yw bod arna' i hyn i'm mab, i sicrhau fod y bobl â'i gadawodd i lawr yn cael eu gorfodi i weld eu camsyniadau. Bob dydd byddaf yn teimlo'r euogrwydd a'r cywilydd o adael fy mab i lawr. Roedd hwn yn deimlad yr oeddwn yn ei brofi cyn gwaharddiad parhaol fy mab, ac mae wedi ei wneud yn llawer anos ei oddef yn wyneb y ffaith ei fod wedi marw.

**37.** Rydw i wedi gweld cofnod presenoldeb fy mab yn yr ysgol am y flwyddyn academaidd 2002/2003. Cyn belled ag y gallaf gofio, y dyddiau sydd wedi eu nodi â "C", nad oeddent yn ddyddiau pan roedd yn mynd i'r Ymddiriedolaeth Fferm neu pan oedd yn y wlad dramor, oedd y dyddiau y cafodd fy mab ei gadw gartref drwy orchymyn yr ysgol, tra'i fod dan fygythiad o waharddiad parhaol.

# Atodiad B

## Nodyn o dystiolaeth a roddwyd mewn cyfarfod gyda'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn yr ysgol.

**1.** Nid oedd y pennaeth wedi cael llawer o ymwneud personol â Disgybl A drwy gydol ei amser yn yr ysgol, a Disgybl A oedd yr unig ddisgybl y bu iddo ei wahardd yn barhaol yn ystod y naw mlynedd y bu'n bennaeth yn yr ysgol (er iddo wahardd yn barhaol nifer o ddisgyblion pan yn bennaeth mewn ysgol arall). Cynyddodd ei ymwneud â'r disgybl pan symudodd y dirprwy bennaeth dros dro i swydd wahanol yng Ngwanwyn 2003.

**2.** Roedd Disgybl A wedi bod yn ddisgybl trafferthus o'r eiliad y cychwynnodd yn yr ysgol. Ar y diwrnod cyflwyno a gynhaliwyd yn yr ysgol yr Haf cyn i Ddisgybl A gychwyn yno, roedd wedi ymddwyn mewn modd anarferol iawn oedd wedi aflonyddu ar y staff. Yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol roedd Disgybl A'n ffigur pwerus ymysg y disgyblion gyda llawer o ddisgyblion yn ei ofni. Roedd ganddo hefyd grŵp o ffrindiau hŷn yn yr ysgol, ac roedd hynny'n achos pryder i'r athrawon.

**3.** Y cyn ddirprwy bennaeth dros dro yn yr ysgol fu'n delio'n bersonol â Disgybl A. Roedd wedi nodi mai dymuniad mam Disgybl A oedd symud Disgybl A allan o amgylchedd yr ysgol ym mis Rhagfyr 2002, er mwyn i Ddisgybl A gael mynd i aros gyda'i nain a'i daid. Bu Disgybl A i ffwrdd am y rhan fwyaf o dymhorau'r Gwanwyn a'r Haf yn 2003, fodd bynnag, a derbyniwyd, wrth edrych yn ôl, fod y trefniadau oedd yn golygu fod Disgybl A'n cael ei gadw gartref am gyfnodau maith yn gwbl annerbyniol. Dim ond pe byddai cefnogaeth amgen yn ei le y byddai absenoldeb o'r fath yn dderbyniol. Gwnaeth yr ysgol ei gorau glas i ddarparu a marcio gwaith cartref i Ddisgybl A yn ystod y cyfnod y bu'n cael ei gadw gartref. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ymarferol nac yn effeithiol, gan mai dim ond ychydig o waith y gall disgyblion fynd i'r afael ag ef y tu allan i'r ysgol. Aeth Disgybl A dramor ar ddiwedd Blwyddyn 8 ac nid oedd hi'n bosibl o gwbl i osod gwaith iddo yn ystod y cyfnod hwn, nac yn ystod cyfnodau estynedig hir eraill.

**4.** Awgrymodd mam Disgybl A a'i chyfreithwyr fod yr ysgol wedi symud drwy'r camau i gael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig i Ddisgybl A yn rhy araf ac y gellid bod wedi cael datganiad yn gyflymach yn rhywle arall. I roi peth cefndir, pan fydd disgybl yn arddangos problemau sy'n ymwneud â dysgu neu ymddygiad, mae ysgolion yn y ddinas yn mynd drwy bum cam y Cod Ymarfer AAA. Unwaith y mae'r pumed cam yn cael ei gyrraedd, gall ysgol wneud cais i'r AALl am Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer y disgybl.

**5.** Yn ogystal â'r Cod Ymarfer AAA, roedd gan yr ysgol ei gweithdrefnau ychwanegol ei hun, Camau A a B, yr oedd yn rhaid mynd drwyddynt cyn i'r gweithdrefnau pum cam gychwyn. Newidiodd Cod Ymarfer yr AALl yn ystod cyfnod Disgybl A yn yr ysgol. I grynhoi, roedd y ddwy weithdrefn yn cynnwys cyfres o gamau. Pe byddai cam A'n methu, byddai cam B yn cael ei weithredu. Pe byddai aamau A a B yn methu, byddai cam 1 Cod Ymarfer AAA yn cychwyn, ac felly ymlaen. Ar bob cam byddai staff uwch yn dod yn rhan o'r broses. Pe byddai disgybl yn cyrraedd cam 5 ar y Cod Ymarfer AAA, gallai'r ysgol wneud cais am asesiad ffurfiol i bennu a oedd gan y disgybl Anghenion Addysgol Arbennig.

**6.** Yn achos Disgybl A, aeth yr ysgol drwy bob cam. Roedd rhaid i Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol gytuno ar gynnydd i bob cam o'r Cod Ymarfer gan ei gyfiawnhau drwy waith papur. Ar 13 Mai 2003 gwnaeth yr ysgol gais am asesiad o anghenion Disgybl A. Nid mater o'r ysgol yn bod yn araf oedd yr amser a gymerodd hi i hyn ddigwydd, ond mater fod yr ysgol wedi dilyn y Gweithdrefnau a osodwyd gan yr AALl.



Mae'r gweithdrefnau hyn yn orfiwrocrataidd ac yn galw ar yr ysgol i fynd drwy lawer o gamau i gyrraedd pwynt lle gall y disgybl a'r ysgol dderbyn cymorth. Gall y broses gyfan gymryd misoedd, ac nid yw hyn yn ddelfrydol gan fod angen cymorth yn llawer cyflymach ar ddisgyblion â phroblemau ymddygiad. Ym mhrofiad yr ysgol, fodd bynnag, roedd y gweithdrefnau'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu, yn hytrach na phroblemau ymddygiad.

**7.** Nid yw'r ysgol wedi cael llawer o brofiad o'r Cod Ymarfer AAA, gan fod disgyblion fel Disgybl A'n brin yn yr ysgol. Mae gan rai disgyblion yn yr ysgol ddatganiadau, ond mae'r rhain yn ymwneud ag anawsterau dysgu, megis dyslecsia, yn hytrach na phroblemau ymddygiad. Heb os, byddai ysgolion eraill oedd wedi arfer mwy wrth ddelio â disgyblion fel Disgybl A, wedi bod â mwy o fewnwelediad i'r modd y mae'r Gweithdrefnau'n gweithio'n ymarferol.

**8.** Cymerodd yr ysgol nifer o gamau i geisio helpu Disgybl A yn ystod 2003. Gofynnodd i'r AALl am gymorth ar sawl achlysur, ond heb lwyddiant. Symbyliad yr ysgol oedd cael Disgybl A i fynychu fferm, a threfnodd hyn a thalu amdano. Sefydlodd yr ysgol sesiynau cynghori i Ddisgybl A hefyd, gyda chyn bennaeth ysgol arall. Ym Mehefin 2003, dywedodd mam Disgybl A wrth yr ysgol fod Disgybl A'n mynd i aros gyda theulu ei dad dramor am weddill y flwyddyn ysgol.

**9.** Ym mis Gorffennaf 2003 cysylltodd swyddog o'r AALl â'r ysgol i ddweud fod lle mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ("PRU") ar gael i Ddisgybl A, cyn belled â bod yr ysgol yn derbyn disgybl o ysgol arall. Ar y pryd, roedd Disgybl A dramor a chytunwyd y byddent yn edrych ar y mater eto ym mis Medi. Ym mis Medi cysylltodd yr ysgol â'r swyddog AALl eto a holi am y posibilrwydd o gael lle mewn PRU i Ddisgybl A. Dywedodd y swyddog AALl nad oedd lleoliad ar gael i Ddisgybl A gan nad oedd yr ysgol wedi mynd drwy'r holl gamau yn y Cod Ymarfer. Mewn gwirionedd, roedd y swyddog AALl yn anghywir; profodd digwyddiadau wedi hynny bod diffyg cyfathrebu o fewn yr AALl a chydnabuwyd fod yr ysgol wedi mynd drwy'r camau i gyd ac wedi anfon y gwaith papur cywir. Roedd yn fater hefyd fod gwahardd parhaol yn amod ar gyfer lleoliad PRU yn yr AALl.

**10.** Roedd mam Disgybl A wedi honni, tua diwedd cyfnod Disgybl A yn yr ysgol, fod ADHD ar Ddisgybl A. Roedd yr ysgol wedi edrych ar hynny cyn hyn, ond wedi dod i'r casgliad ei fod yn annhebygol gan fod Disgybl A'n ddetholus ynghylch i bwy a phryd y byddai'n ymddwyn yn iawn. Er enghraifft, byddai'n ymddwyn yn dda i'r dirprwy bennaeth, ond ni fyddai'n ymddwyn yn dda i athrawon benywaidd iau.

**11.** Trodd perthynas yr ysgol â mam Disgybl A yn sur ym mis Medi 2003. Roedd hi wedi siarad â'r AALl oedd wedi awgrymu nad oedd Disgybl A'n derbyn cefnogaeth gan nad oedd yr ysgol wedi anfon y gwaith papur cywir i mewn. Roedd hyn yn anghywir gan fod yr ysgol wedi anfon y gwaith papur cywir. Roedd y camgymeriad yn ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu rhwng y swyddog AALl a'r adran datganiadau yn yr AALl. Roedd y broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer asesiad Disgybl A'n mynd yn ei flaen yn ystod mis Medi 2003. Roedd mam Disgybl A wedi gosod pwys mawr ar yr asesiad hwn gan gredu y byddai wedi arwain at Ddisgybl A'n cael datganiad ac yn derbyn llawer iawn o gymorth. Nid yw'r ysgol yn credu y byddai'r datganiad wedi darparu mwy na rhyw ddwy awr o gefnogaeth yr wythnos i Ddisgybl A. Darparwyd cefnogaeth i Ddisgybl A drwy gyfrwng Mentor A, cynorthwy-ydd dysgu, cyn i'r Datganiad gael ei gwblhau ac yn fuan cyn i Ddisgybl A farw. Rhoddodd mam Disgybl A'r argraff ei bod yn disgwyl i'r lefel hon o gefnogaeth barhau unwaith y byddai'r datganiad wedi cael ei gwblhau, er y byddai hynny wedi bod yn annhebygol.

**12.** Mae gan bob Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru ddull gwahanol o ddelio gyda disgyblion fel Disgybl A.  Y broblem sylfaenol yw nad oes digon o strategaethau i ddelio â disgyblion problemus yn ddigon buan.  Nid yw'r ysgol eisiau gorfod gwahardd disgyblion yn barhaol y funud mae trafferth yn codi gan fod hyn yn erbyn  athroniaeth yr hyn y maen nhw'n ceisio'i wneud fel addysgwyr, ond yn y ddinas, gwahardd parhaol yw'r unig ffordd i gael y cymorth sydd ei angen.  Mae'r ysgol eisiau ceisio dilyn strategaethau creadigol eraill.

**13.** Roedd mwy o hyblygrwydd, ac felly mae o hyd, yn y cwricwlwm i helpu disgyblion hŷn, 14 oed a hŷn.  Gall yr ysgol gynnig gwaith mwy galwedigaethol i ddisgyblion o'r fath.  Fodd bynnag, prin oedd, ac yw'r hyblygrwydd i helpu disgybl rhwng 11 a 13 oed, gan fod gofynion y cwricwlwm mor anhyblyg.  Gwelwyd ymddygiadau oedd yn achos pryder yn Nisgybl A yn llawer cynharach na'r rhan fwyaf o blant â phroblemau.  Cydnabu'r seicolegydd addysg a welodd Disgybl A nad oedd yn gwybod pa gamau i'w hawgrymu ar gyfer Disgybl A gan ei fod wedi cyrraedd 'pen draw'r llinell' mor ifanc.  Cyn belled â bod yr ysgol yn gwybod, roedd Disgybl A eisoes wedi dechrau arddangos problemau yn yr ysgol gynradd.

**14.** Mae cynlluniau gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu mwy o gymorth i blant rhwng 3 a 7 oed drwy ddarparu cefnogaeth ddwys i ysgolion cynradd a rhagor o gyfranogiad rhyngasiantaethol. Mae'r peilot o'r cynlluniau hyn yn cael ei gynnal mewn ysgol gynradd yn y ddinas a'r arwyddion yw bod hwn yn gweithio'n dda iawn wrth ddelio gyda phroblemau'n gynnar.  Efallai y gall pennaeth yr ysgol gynradd ddarparu mewnwelediad ar sut y mae'n gweithio.  Er ei bod yn bwysig cael ymyriad cynnar fel hyn, roedd hi hefyd yn bwysig i ddarparu cefnogaeth drwy gydol pob cyfnod ysgol ac i ddelio â phob agwedd o'r broblem.  Cyfeiriwyd at Cychwyn Cadarn, oedd yn cynnwys dull cyfannol tuag at helpu pobl ifanc mewn ardaloedd o amddifadedd ac oedd yn cynnwys help gyda materion rhianta.

**15.** Ni all yr ysgol fod yn siŵr pa gefnogaeth ychwanegol allai fod wedi helpu Disgybl A.  Mae'n bosibl y byddai cael y cynorthwy-ydd dysgu yn gynt wedi helpu, ond efallai na fyddai hynny wedi gweithio yn yr hir dymor, yn seiliedig ar beth ddigwyddodd gyda Mentor B, mentor o NCH Cymru.  Roedd mam Disgybl A wedi trefnu'r cymorth gan Mentor B, a byddai'n mynychu'r ysgol gyda Disgybl A.  Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi gweithio o gwbl, gan fod Disgybl A yn teimlo embaras oherwydd ei phresenoldeb ac yn y pen draw bu'n rhaid gwahanu Disgybl A yn gorfforol oddi wrthi.  Mae'n bosibl felly y byddai'r berthynas gyda Mentor A wedi arwain at yr un peth ymhen amser.  Efallai mai mynd i ysgol arall fyddai wedi bod yn ateb i Ddisgybl A.  Wrth edrych yn ôl, efallai y byddai wedi bod yn well ei wahardd yn barhaol yn llawer cynt. Roedd disgwyliadau mawr drwy'r ysgol gyfan y byddai Disgybl A'n ymddwyn yn wael, a byddai ysgol newydd wedi rhoi cychwyn newydd iddo heb ddisgwyliadau negyddol, a heb yr angen iddo efelychu enw drwg ei frawd yn yr ysgol.  Er bod PRU wedi ei ystyried a'i drafod, mae peth amheuaeth ynghylch pa mor effeithiol fyddai wedi bod ar gyfer Disgybl A, gan y byddai wedi bod yn fater ohono'n bod yng nghwmni (a dan ddylanwad) plant eraill â phroblemau ymddygiad.

**16.** Mae'n debyg y byddai cynghori wedi helpu Disgybl A.  Byddai'r ysgol wedi elwa, a byddai'n elwa o hyd, ar fynediad i gynghorydd o'r Gwasanaethau Cefnogi Disgyblion yn yr AALl.  Mae'r cynghorydd yn cynnig cyngor i ddisgyblion naill ai'n unigol neu mewn grwpiau.  Yr AALl sy'n pennu faint o amser mae'r cynghorydd yn ei dreulio mewn ysgol benodol drwy edrych ar faint o ddisgyblion sydd ar y Cod Ymarfer a chlustnodi canran o amser yn seiliedig ar y nifer honno o ddisgyblion.  Mae' r ysgol wedyn yn trefnu disgyblion o fewn yr amser y bydd y Cynghorydd yn yr ysgol.  Mae'r cynghorydd yn gwneud gwaith rhagorol, a byddai'r ysgol yn elwa o gael rhagor o'i hamser.  Ar adegau, mae'r ysgol wedi osgoi'r fiwrocratiaeth ac wedi talu i'r Cynghorydd dreulio amser ychwanegol yn yr ysgol.  Ond weithiau bydd amserlen y cynghorydd yn llawn, felly mae mynediad i'w gwasanaeth yn dal yn gyfyngedig.  Yn ddelfrydol, dylai fod yn fater i ddisgresiwn yr ysgol i benderfynu pryd y mae angen cynghori ac mae dadl dros i'r ysgol gael ei chynghorydd ei hun.  Bydd ysgol yn y lle gorau i nodi'n gynnar iawn ddisgybl sy'n debygol o waethygu i'r graddau o "fynd drwy'r camau".  Ac eto cyfeiriodd y system y cymorth hwnnw at y disgybl a aeth drwy'r broses, ac nid y disgybl a allai fod wedi cael ei gynghori'n fuan iawn er mwyn peidio â gorfod defnyddio'r prosesau.  Dylai'r broses gydnabod gallu'r ysgol i ragweld y broblem, a dylai arfogi ysgolion gyda'r adnoddau cynnar i gymryd camau ataliol effeithiol.

**17.** Mae Swyddog C o'r AALl wedi siarad ar fater disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae hi wedi nodi fod y swm a wariwyd ar ddisgyblion ag AAA, o'i gymharu ag AALlau tebyg, yn debyg yn y ddinas i awdurdodau eraill.  Serch hynny, roedd llawer mwy o ddisgyblion â datganiadau yn y ddinas.  Cytunodd â'r farn y dylai bod gwell mesurau ataliol a chefnogol yn eu lle yn gynharach yn y broses, ac yna byddai llai o ddisgyblion yn cael datganiadau yn y pen draw.

# Atodiad C

## Nodyn o gyfarfod gyda Swyddog B yn Eversheds.

**1.** Roedd Swyddog B wedi gweithio mewn amryw o AALlau yn Lloegr yn y gorffennol. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd wedi delio â mater gwahardd "anghyfreithlon", lle'r oedd pwysau'n cael ei roi ar rieni i dynnu eu plant o'r ysgol yn wirfoddol. Roedd yr AALl Seisnig dan sylw wedi cymryd y safbwynt nad oedd hyn yn iawn, gan alw ar ffurfio cytundeb tair ffordd ym mhob achos lle'r oedd rhieni wedi tynnu eu plant yn wirfoddol o ysgol, gyda'r rhiant, yr ysgol a'r AALl yn ei lofnodi. Os nad oedd pob un o'r tri yn llofnodi'r cytundeb, yna byddai'r AALl yn galw ar yr ysgol i dderbyn y disgybl yn ôl. Byddai hyn yn galluogi rhiant i wrthwynebu'r trefniant.

**2.** Yr her bennaf yw olrhain gwahardd answyddogol, gan nad oes trywydd swyddogol lle bydd gwahardd answyddogol yn cael ei ddwyn i sylw'r AALl yn arferol. Mae'n anodd mynd i'r afael â'r broblem, yn enwedig os yw'r gwahardd answyddogol yn digwydd â chydsyniad y rhiant. Efallai y byddai amlygu eu hawliau i rieni parthed eithriadau yn cyfrannu rhywfaint tuag at fynd i'r afael â'r broblem hon. Yn aml, dim ond os bydd rhiant yn ffonio'r Gwasanaeth Lles Addysg (EWS) y bydd yr AALl yn dod yn ymwybodol o wahardd answyddogol. Neu gall yr EWS wneud gwiriadau cyffredinol ar gofrestri, lle byddai gwiriadau heb eu cyhoeddi ymlaen llaw o gofrestri presenoldeb yn dangos patrymau diffyg presenoldeb. Mae rhai AALlau eisoes yn gwneud hyn, ond nid yn aml iawn.

**3.** Dylai ysgolion gadw at Ganllawiau cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol ar gynhwysiad a chefnogaeth disgyblion a gwneud defnydd llawn o'r EWS. Po fwyaf y bydd ysgolion yn ceisio cadw problemau ynghudd, y lleiaf ymwybodol o raddau'r broblem fydd yr AALl. Mae'r AALl wedi gweithredu rhai newidiadau sy'n arwain at olrhain mwy o ddisgyblion a sylwi ar batrymau absenoldeb. Er enghraifft, mae Panel Darpariaeth Eithriadol yn bodoli, sy'n gyfrifol am olrhain disgyblion bregus sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol, neu sydd â nifer uchel o eithriadau tymor penodol. Ar ben hyn, mae Swyddog Gwaharddiadau wedi cael ei benodi, gyda'r rôl o ddelio â gwaith papur eithriadau a mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr.

**4.** Mewn byd perffaith, byddai problemau'n dod i sylw'r AALl cyn iddynt gyrraedd y Swyddog Gwaharddiadau. Mae dyletswydd ar ysgolion i hysbysu'r AALl am gofnodion presenoldeb a bydd patrymau'n amlwg yn y rhain. Dylai'r ysgolion gysylltu â'r Tîm Cefnogi Ymddygiad pan fydd problemau'n dechrau dod i'r amlwg. Bydd trafodaethau wedyn yn digwydd ynghylch a yw'r problemau'n Anghenion Addysgol Arbennig neu'n broblemau ymddygiad cymdeithasol. Y neges i benaethiaid yw y dylent ddilyn Canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae achosion lle nad yw gwaharddiadau'n cael eu cynnal yn unol â Chanllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r ddeddfwriaeth yn ddiogel ar y cyfan, ond er mwyn bod yn effeithiol rhaid cadw ati'n fanwl gywir.

**5.** Bydd ysgolion yn dadlau nad yw cefnogaeth gan yr AALl yn cyrraedd yn ddigon cyflym. Serch hynny, nid yw hi'n bosibl i'r AALl sefydlu pa adnoddau sydd eu hangen oni bai bod yr ysgol yn dweud wrtho beth yw graddau'r broblem. Roedd hyn yn creu cylch dieflig.

**6.** Pan fydd disgybl yn yr AALl yn cael ei wahardd yn barhaol, mae nifer o opsiynau: gellir eu lleoli mewn ysgol arall (er, oni bai bod strategaeth yn ei lle, ni fydd hyn bob amser yn briodol). Neu gellir eu lleoli mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, neu gael hyfforddiant unigol. I ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (15 i 16 mlwydd oed), roedd mwy o opsiynau parthed hyfforddiant galwedigaethol neu golegau, ond nid oedd hyn ar gael i blant iau. Byddai disgyblion oedd yn dangos arwyddion o Anhwylder Ymddygiad Addysgol yn cael eu cyfeirio am asesiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

**7.** Roedd angen ymyriadau cyflym a chynnar, gan asiantaethau eraill yn ogystal ag o fewn yr AALl, yn cynnwys y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Roedd rhai cynlluniau, megis y cynllun "Cryfhau Teuluoedd", yn cydnabod bod problemau yn yr ysgol fel arfer yn arwydd o broblemau yn y cartref ac yn y gymuned.

**8.** Roedd cyllido hefyd yn broblem. Pan fydd disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol mae'r arian a glustnodwyd ar gyfer y disgybl hwnnw'n cael ei dynnu allan o gyllideb yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r arian hwn yn ddigon i dalu am y dulliau amgen o addysgu sydd eu hangen ar y disgybl.

**9.** Mynegodd yr ysgol a mam Disgybl A bryderon am y ffaith nad yw cefnogaeth yr AALl yn cychwyn nes bod disgybl yn cael ei wahardd yn barhaol neu'n cael datganiad. Mae dulliau o gefnogi sy'n cychwyn cyn hyn os yw Canllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, byddai'n fwyaf o gymorth pe byddai'r adnoddau'n cael eu defnyddio ar gychwyn y problemau. Mae llawer o'r strategaethau'n cychwyn adeg gwneud y Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod ysgolion a'r AALl yn gwahaniaethu rhwng problemau ymddygiad cymdeithasol ac Anghenion Addysgol Arbennig. Yn Lloegr, nid yw hi'n angenrheidiol cael datganiad i gael mynediad i gefnogaeth ymddygiad, o ganlyniad i'r Rhaglenni Gwella Ymddygiad. Fodd bynnag, roedd y broblem yn parhau gan nad yw'r AALl yn gallu darparu'r gefnogaeth oni bai bod yr ysgol yn ei gwneud yn ymwybodol o'r broblem - byddai gwahardd answyddogol yn golygu na fyddai'r AALl o anghenraid yn cael gwybod yn gynnar.

**10.** Byddai angen strategaeth genedlaethol i godi proffil cyfrifoldebau Penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion fel ei gilydd.

# Atodiad D

## 2002-2003

| WYTHNOS YN DECHRAU | DYDD LLUN | | DYDD MAWRTH | | DYDD MERCHER | | DYDD IAU | | DYDD GWENER | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2/9/02 | X | X | I | I | / | \ | / | \ | / | \ |
| 9/9/02 | / | \ | / | \ | / | \ | / | \ | / | \ |
| 16/9/02 | / | \ | / | \ | / | \ | L | \ | / | \ |
| 23/9/02 | / | \ | / | \ | / | C | / | L | / | \ |
| 30/9/02 | / | L | / | \ | / | \ | L | \ | / | \ |
| 7/10/02 | / | \ | / | \ | / | \ | / | \ | / | \ |
| 14/10/02 | X | X | / | \ | / | \ | C | C | X | X |
| 21/10/02 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 28/10/02 | C | C | / | \ | / | \ | / | \ | / | C |
| 4/11/02 | / | \ | / | \ | / | \ | CP | CP | / | \ |
| 11/11/02 | / | \ | / | \ | / | C | C | C | C | C |
| 18/11/02 | C | C | / | \ | / | \ | / | \ | / | \ |
| 25/11/02 | L | \ | / | \ | X | X | C | C | C | C |
| 2/12/02 | CS | CS | CS | \ | CS | \ | CS | CS | CM | CM |
| 9/12/02 | CD | CD | CD | CD | CD | CD | CD | CD | CD | CD |
| 16/12/02 | CD | CD | CD | CD | CD | CD | CD | CD | X | X |
| 23/12/02 | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH |
| 30/12/02 | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH | XH |
| 6/1/03 | CM | CM | / | \ | / | \ | / | \ | / | \ |
| 13/1/03 | / | \ | C | C | C | C | C | C | C | C |
| 20/1/03 | CM | CM | C | \ | C | C | / | C | C | C |
| 27/1/03 | C | C | C | C | L | C | CM | CM | C | C |
| 3/2/03 | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C |
| 10/2/03 | C | C | C | C | C | C | C | C | X | X |
| 17/2/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 24/2/03 | C | C | C | C | C | C | E | E | E | E |
| 3/3/03 | E | E | E | E | E | E | E | E | E | E |
| 10/3/03 | E | E | E | E | E | E | E | E | E | E |
| 17/3/03 | E | E | E | E | E | E | E | E | E | E |
| 24/3/03 | E | E | E | E | E | E | E | E | E | E |
| 31/3/03 | / | L | X | X | C | C | / | C | / | C |
| 7/4/03 | L | \ | / | CP | CH | CH | CM | CM | / | C |
| 14/4/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 21/4/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 28/4/03 | CFT | CFT | C | C | CFT | CFT | CH | CH | / | \ |
| 5/5/03 | # | # | / | \ | CFT | CFT | L | L | CW | CW |
| 12/5/03 | CFT | CFT | / | \ | CFT | CFT | C | C | CFT | CFT |
| 19/5/03 | CFT | CFT | C | C | CFT | CFT | CFT | CFT | CW | CW |
| 26/5/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 2/6/03 | CFT | CFT | CW | CW | CFT | CFT | CW | CW | C | C |
| 9/6/03 | C | C | CW | CW | C | C | CW | CW | CM | CM |
| 16/6/03 | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF |
| 23/6/03 | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF |
| 30/6/03 | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF |
| 7/7/03 | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF |
| 14/7/03 | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF | CF |
| 21/7/03 | X | X | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 28/7/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 4/8/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 11/8/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 18/8/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |
| 25/8/03 | # | # | # | # | # | # | # | # | # | # |

**ALLWEDD**

| | |
|---|---|
| X | Diwrnod hyfforddiant mewn swydd (athrawon yn unig) |
| I | Hwnt gychwyniad i dymor (Doedd dim angen i Ddisgybl A mynychu ysgol) |
| / | Disgybl A yn bresennol (bore) |
| \ | Disgybl A yn bresennol (prynhawn) |
| L | Disgybl A yn bresennol ond yn cyrraedd yn hwyr |
| C | Absenoldeb gydag awdurdod |
| # | Gwyliau ysgol |
| CP | Disgybl A yn ysgol (wedi cofnodi yn anghywir) |
| C | Wedi eithrio (wedi cofnodi yn anghywir) |
| CS | Disgybl A yn bresennol (o dan goruwchwyliaeth uniongyrchol) |
| CM | Cyfarfod yn yr ysgol |
| CD | Disgybl A adref yn dilyn trafodaeth gyda mam ac aelod o staff |
| XH | Gwyliau Nadolig |
| C | Wedi danfon adref ar ôl digwyddiad yn yr ysgol |
| E | Wedi eithrio |
| E | Wedi eithrio (wedi cofnodi yn anghywir) |
| CH | Mam Disgybl A yn ei gadw adref |
| CFT | Disgybl A yn mynychu'r Ymddiriedolaeth Fferm |
| CW | Disgybl A yn gweithio gyda aelod o'r teulu |
| CF | Disgybl A gyda'i dad |

*Dyma atgynhyrchiad cywir o gofrestr ysgol Disgybl A, ond, mae'r allwedd wedi newid er mwyn ei wneud yn haws i'w ddarllen*

# Nodiadau